


ECO'R WYDDFA

Rhif 51

MEDI 1980

Pris: 12c



DRWY DREIALON — I LWYDDO

Mae'r llinell hon wedi ei gwireddu yn hanes Huw Meredydd Roberts, bachgen 14eg oed o Fethel. Treialon cwn defaid yw ei hobi ac mae ei lwyddiant ysgubol yn ystod y misoedd diwethaf mewn treialon ar hyd ac ar led Gogledd Cymru yn profi dawn aruthrol y gŵr ifanc yma.

Ychydig dros dair blynedd sydd er pan ddechreuodd Huw gystadlu o ddifrif yn dilyn symudiad o Feddgelert i'r tyddyn 10 acer o'r enw Penrhos ym Methel. Yn ei flwyddyn gyntaf yr oedd pethau'n argoeddi'n dda gan iddo ddod yn gyntaf ym mhencampwriaeth Gogledd Cymru o dan 25ain oed ac hefyd yn gyntaf yn nhreialon Llwyngwrlil. Mae bellach wedi ennill treialon Llwyngwrlil dair gwaith yn olynol a'i eiddo ef yw'r gwpan am byth.

Eleni mae Huw yn falch o'r 'rossette' a enillodd ym Menllech ar y 7ed Awst gan iddi gael ei chyflwyno iddo gan Y Gymdeithas Gŵn Defaid Ryngwladol ond 'rwy'n siŵr mai dod yn chweched roddodd y pleser mwyaf iddo eleni. Ia, dod yn chweched ond allan o 92 o

gystadleuwyr ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru ym Mhwillheli. Y rheswm pam mae'r pleser gymaint yw fod yn y gystadleuaeth honno nifer o bencampwyr Cymru a phencampwyr Prydain a nifer fu yn nhim Cymru.

Pwysleisia Huw mai partneriaeth ci pum mlwydd oed a brynodd o'r Alban pan yn fychan a gast 18 mis oed o'r enw Nel. Bydd Huw yn ymarfer bob dydd ar eu tir ym Methel gyda'r 40 o ddefaid sydd ganddo ef a'i dad. Dywedodd Huw fod partneriaeth arall hefyd, sef y bartneriaeth rhyngddo ef a'i dad sydd wedi rhoi llawer o help iddo yn ystod ei yrfa.

Byddech yn meddwl mai ffermio fyddai bryd Huw wedi gadael Ysgol Brynrefail ond am fynd yn saer y mae ond cael tyddyn gydag ychydig o dir er gallu cario ymlaen â'r hobi y mae mor llwyddiannus ynddi.

Mae'n amlwg fod dyfodol disglair i Huw gyda'r ddawn arbennig sydd ganddo a phwy a wŷr na chaiff yr *Eco* ymweld â Huw eto ymhen ychydig flynyddoedd i'w gyfweled fel pencampwr rhyngwladol.

YR ECO AR EI NEWYDD WEDD

Fel y sylwch mae'r *Eco* yn 20 tudalen — ac fel yna y bydd o hyn allan. Bwriedir codi'r pris i 15c y rhifyn ddechrau'r flwyddyn nesaf. Bydd yn rhaid hefyd codi pris yr archebion post i £3.50.

Gobeithio na fydd y gost ariannol yn amharu ar eich mwyniant a'ch cefnogaeth.

O EISTEDDFOD DYFFRYN LLIW

Er mor bell oddi wrthym yn ddaearyddol oedd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ymwelodd nifer o bobl o'r fro hon â'r brifwyl. Cawsom hefyd ein cynrychioli'n deilwng iawn gan ddau 'enw' cyfarwydd ym mro'r *Eco*, pan urddwyd hwy â'r wisg werdd fel aelodau newydd o Orsedd y Beirdd. Y ddau yw Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug ('Agor Ffiniau'r Gorffennol') a Mr Rol Williams o'r Waunfawr. Fe'n cynrychiolwyd, fel petae ar y llwyfan gan un arall sy'n prysur wneud enw iddi ei hun ac sydd erbyn hyn yn wyneb cyfarwydd ar dudalennau'r *Eco* — sef Rhian Owen o Lanberis. Daeth Rhian yn ail yn y gystadleuaeth unawd i ferched rhwng 15 a 18 oed.

Clywsom fod Miriam Hughes "Rallt Deg", Cwm-y-glo wedi dod i blith y goreuon yng nghystadleuaeth y stori fer.

Llongyfarchiadau'r ardal iddynt i gyd.



Rol Williams o'r Waunfawr a urddwyd i'r Orsedd.

Nid oedd Mrs M. Lloyd Williams ar gael i dynnu ei llun.



Rhian Owen o Lanberis — ail ar yr unawd i ferched rhwng 15-20. Llongyfarchiadau hefyd iddi ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen mis Mehefin.

CYNGHORYDD NEWYDD



Brian Jones (Llafur) o Gwm-y-Glo yw'r Cyngorydd Dosbarth newydd dros Lanberis, Cwm y Glo a Nant Peris. Enillodd yr is-etholiad ar ôl marwolaeth y Cyng. Trefor W. Williams o Lanberis. Dyma'r golydd y bleidlais — Brian Jones 654; Vera Griffiths (Plaid Cymru) 388 a Norman Pritchard (Swyddog Undeb) 99. Dymuna Brian Jones ddiolch am y cydweithrediad a'r gefnogaeth a dderbyniodd.

POBL LLANRUG YN DANGOS EU HOCHR

Mae pamffled dwyieithog wedi cael ei gynhyrchu gan bentrefwyr Llanrug sy'n mynnu cael chwarae teg i'r Gymraeg ar y bedwaredd sianel deledu. Bwriad trefnwyr 'Ymgyrch Llanrug dros y Sianel' yw dosbarthu'r pamffled i drigolion y pentref yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddant wedyn yn mynd â deiseb o amgylch i ofyn am gefnogaeth y pentrefwyr i'r ymgyrch. Y nod yw cyflwyno'r ddeiseb i'r Prif Weinidog, Mrs Thatcher.

Mae'r pamffled yn cyflwyno'n gryno y ffeithiau ynglŷn â'r bedwaredd sianel ac yn cynnwys enwau nifer o bobl sy'n amlwg mewn gwahanol agweddau o fywyd pentref Llanrug. Pobl ydynt o wahanol liwiau gwleidyddol ond sydd yn unol gadarn o blaid yr ymgyrch yma.

ECO'R WYDDFA

RHIF 51
MEDI 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:
Dafydd Whiteside Thomas, Bron y
Nant, Pontrhyallt, Llanrug,
(Caernarfon 3515).

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwynndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwynndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Gwyliau hapus i bawb.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
24 MEDI
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 2 HYDREF
os gwelwch yn dda.

Llythyrau

Y DYFODOL YN DDIOGEL

Syr,

Caniatewch i mi, Cymraes a
disgybl sydd newydd orffen fy
mlwyddyn olaf yn Ysgol
Brynrefail, ofod i ateb cŵyn G.W.
Roberts, Llanberis yn rhifyn
Gorffennaf o'r Eco.

Mi wn i gymaint o drafferth a
gafodd ein hathrawon i gael
cyfraniad i'n cylchgrawn
gennym ni'r Cymry a fi fy hun yn
eu mysg. Heblaw cyfraniad y
Saeson papur tair tudalen yn lle
tri deg dau fuaasai y rhifyn y
soniwyd amdano.

Rhaid cyfaddef mai Saeson
oedd barotaf gyda'u cyfraniadau
i'r rhifyn yma o'r 'Efail', y Cymry
yn llai hyderus ond daw tro'r
Cymry y tro nesaf a gobeithio y
bydd cydbwysedd a
chydweithrediad teilwng i'r Fro
Gymraeg o hyn ymlaen.

Gallaf eich sicrhau nad yw y
'llanw estron' y soniwyd amdano
wedi llwyddo i fodd ei bro na'i
fod yn debygol o wneud yn y
dyfodol chwaith. Y mae'r
Gymraeg yn cael ei phriod le yn
holl agweddau'r ysgol o hyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Carole Anne Jones,
Pant Clyd,
Tan-y-coed.

Rhagor am y Diweddard Henadur R.E. Jones

Annwyl Olygydd,

Yn *Eco'r Wyddfa* mis Mai
'roedd ymholiad gan Dafydd
Islwyn am y diweddard Henadur
R.E. Jones, Llanberis.
'Roeddwn yn falch o weld enw'r
gŵr annwyl hwn yn yr amlwg
unwaith eto - un a wnaeth
gymaint dros ddisgyblion Ysgol
Brynrefail gynt, ac a fu mor
flaenllaw ym myd addysg y Sir,
yn nyddiau cyntaf gweithredu
Deddf Addysg Ganolraddol
1889. 'Rwy'n siŵr y gall llawer
roi mwy o wybodaeth amdano na
mi, ond 'rwyf wedi sgwennu
llythyr helaeth i Dafydd Islwyn
ond fy mod yn brin o wybodaeth
am weithiau 'Cyngar' fel llenor a
bardd. Hwyrach ran hynny ei fod
yn ddyn rhy brysur yn
gyhoeddus i gael llawer o gyfle i
lenyddu.

Diolch calon am yr *Eco* -
Mari Lewis fydd yn gofalu
amdano i ni - ac er fy mod wedi
gadael y Nant ers 1938, rhyfedd
fel y caf bleser mewn hen
atgofion, a llythyrau am yr hen
gylch.

Yn bur,
Mair Closs Roberts,
Y Garreg Wen, Tal-y-sarn.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

LEIN BACH Y CHWAREL

Annwyl Gyfaill,

Llawer o ddiolch i Mrs
M.G. Williams, Bethel am ei
herthygl ddiddorol ar Lein Bach
y Chwarel yn rhifyn Mehefin.

Hoffwn fanylu ar ei
chyfeiriad at 'ffordd yn mynd yn
uchel iawn trwy Glwt-y-bont, ac
arni ddwy inclên'. Tramffordd a
godwyd tua 1824 oedd hon
(Mae'r dyddiadau yn amrywio o
1822 i 1826. Pa bryd y
dechreuwyd cario llechi arni
tybed?). Cymeraf mai ceffylau a
dynnai'r wagenni o'r chwarel i
ben yr inclên gyntaf ac mai
disgyrchiant a wna'i'r gwaith
wedyn i lawr y ddwy inclên (h.y.
y wagenni llawn yn mynd i lawr
gan dynnu'r gweigion i fyny)
gyda cheffylau eraill yn mynd â'r
rhai llawn ymlaen i'r Felinheli.
Dyma'r tro cyntaf erioed imi
weld yr enwau *Craig Lwyd* a
Garth ar y ddwy inclên. Prun
oedd prun? A oes a wnelo'r enw
Sinc rywbeth â gwaelod yr inclên
isaf?

Nid yw cyfeiriad Mrs
Williams at reilffordd yn niwedd
y ddeunawfed ganrif yn gywir
(gweler fy llythyr yn rhifyn Mai
o'r *Eco*). Ond mae'n hollol bosibl
mai cyfeiriad sydd yma mewn
gwirionedd at y ffordd a wnaed
o'r chwarel i lawr Gallt-y-foel ac
ar hyd yr hyn sydd heddiw'n
Stryd Fawr, Deiniolen (nid oedd
tai yno hyd 1823) ac ymlaen i'r
Felinheli. Yn ôl F.A. Barnes fe'i
gwnaed yn 90'au'r ddeunawfed
ganrif ond yn ôl *Hanes Gwaun
Gynfi*, D.M. Jones a J. Roberts,
fe'i gwnaed yn 1806-8. Pwy sy'n
iawn tybed? Clywais fy nhad yn
sôn am dŷ yng nghwaelod
Gallt-y-foel a dyddiad tua 1790
wedi ei gerfio ar lechen yno. Oes
rhywun a fedr fy ngoleuo?

Yn gywir iawn

Dafydd Orwig,
Cilcaban,
Braichmelyn,
Bethesda.
(600423)

O.N. Diolch yn fawr i nifer o
gyfeillion am gysylltu â mi ar
fater Dafydd Ddu Eryri a Leila
Megáne. Daw gair pellach ar
hyn.

CASTELL DOLBADARN

Syr,

Wrth gyfeirio at honiad William
Owen Pughe i gastell Dolbadarn gael
ei godi yn 233 C.C. 'roeddwn i'n
falch iawn o weld Perisfab yn dweud
"na roddir fawr o goel ar ei
ddyfaliadau erbyn heddiw". Lol
botes oedd datganiad W. Owen
Pughe am Gastell Dolbadarn beth
bynnag!

Yn ôl yr awdurdodau fe godwyd y
castell yn ôl pob tebyg yn ystod
teyrnasiad Llywelyn Fawr sef rhwng
1200 a 1240. Gan hynny nid oes â
wnelo'r castell ddim oll â'r ddwy
wylfa, "un ym Mhen y Pass a'r llall ar
ben Dinas ger Glasgoed yn
Llanddeiniolen." Wn i ddim am y
cyntaf ond bryngaer nodweddiadol o
Oes yr Haearn oedd yr olaf ac fe'i
codwyd ymhell dros fil o
flynyddoedd cyn codi Castell
Dolbadarn!

Fel Perisfab hoffwn gloi gydag
englyn. Pwy oedd Gwilym Alltwn,
yr awdur?

"I genedl y clogwyni - yn nydd dig
Hwn oedd dwrn Eryri;
Hen gastell Padarn a'i gelli
Oedd fwy'i nerth na'n Wyddfa
ni."

Yn gywir iawn,
Cynfi

(Cafwyd enw a chyfeiriad ein
gohebydd)

CYFRANIAD I ECO'R WYDDFA

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion hael tuag at gostau'r
Eco:

£3.00 - Mair Closs Roberts, Y
Garreg Wen, Tal-y-sarn; Moi
Parry, Peterborough, Canada;
R.W. Williams, Corby,
Northants.

£1.00 - Mrs D.M. Jones, 17
Fflatiau Lôn y Bryn, Caernarfon;
Di-enw, Penisarwaun.

£1.00 - Di-enw. Llanberis.

£1.00 - Mr Colin Davies,
Brimington; Mr R. Elwyn
Williams, Caergybi.


£2 - Mr a Mrs A.M. Jones, Foel
Gron, Dinorwig.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Cedric



POTELI'N HWYLIO'R HELI

Fuoch chwi yng nglan y môr yr haf hwn? Neu ar daith mewn llong? Efallai i rai ohonoch daflu potel i'r dŵr. Sgwn i faint ohonoch wnaeth sgwennu neges a'i roi i mewn yn y botel cyn ei thaflu? Dyma hanesion am rai poteli a daflwyd i'r môr o wahanol draethau'r byd.

Er bod potel yn edrych yn fregus iawn, eto i gyd gall wrthsefyll holl stormydd y moroedd; stormydd sy'n ddigon chwyn yn aml i foddi llongau mawrion. Mae cyflymder y botel yn dibynnu'n aml ar gryfder y gwynt a'r cerrynt. Nid yw potel mewn rhan dawel o fôr yn symud mwy na milltir mewn mis, ond yng nghanol Môr yr Iwerydd, gall potel deithio cymaint â chan milltir mewn diwrnod. Ni all neb fod yn berffaith sicr i ba gyfeiriad y mae potel yn debygol o nofio 'chwaith.

Un tro gollyngwyd dwy botel gyda'i gilydd ar arfordir Brasil. Nofiodd un ohonynt i'r dwyrain am 130 o ddyddiau nes glanio ar draeth yn Affrica. Nofiodd y llall i'r gogledd-orllewin am 196 o ddyddiau nes glanio yn Nicaragua yng Nghanolbarth America. Dro arall, taflwyd dwy botel oddi ar long yng nghanol Môr yr Iwerydd. Glaniodd y ddwy botel ychydig lathenni oddi wrth ei gilydd ar draeth yn Ffrainc, 350 o ddyddiau'n ddiweddarach!

Y BOTEL BRIODASOL

Un diwrnod yn 1956, teimlai Ake Viking, morwr ifanc o Sweden yn bur ddigalon. Penderfynodd ysgrifennu llythyr at unrhyw ferch ifanc a oedd yn barod i lythyr ag ef. Rhoddodd y llythyr mewn potel a'i daflu i'r môr. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, nofiodd y botel i'r lan ar Ynys Sicily ac aeth pysgotwr lleol â hi adref. Penderfynodd Paolina, ei ferch,

sgwennu i Ake, ac ar ôl llawer o lythyrâu, cyfarfu'r ddau am y tro cyntaf a syrthio mewn cariad. Dair blynedd ar ôl taflu'r botel i'r môr, cafodd Ake a Paolina eu priodi!

PERERIN O BOTEL

Yn 1929 gollyngwyd potel i'r dŵr ym Môr India gan wyddonwyr o'r Almaen. Roedd yn bosibl darllen y neges heb dorri nac agor y botel. Gofynnwyd i bwy bynnag a ddarganfyddai'r botel anfon y wybodaeth yn ôl i gyfeiriad yn yr Almaen, ac yna, daflu'r botel yn ôl unwaith eto i'r môr.

Mae'n rhaid fod y botel wedi nofio i'r dwyrain heibio i Seland Newydd ac ymlaen i Dde America. Yno, cafodd ei golchi i'r lan nifer o weithiau nes hwyllo ymlaen ar draws yr Iwerydd ac yn ôl i Fôr India. Glaniodd ar draeth yng Ngorllewin Awstralia yn 1935. Roedd y botel hynod hon wedi teithio 16,000 o filltiroedd mewn 2,447 o ddyddiau, sef cyflymder o tua chwech neu saith milltir bob dydd am chwe blynedd!

POTEL HANESYDDOL

Un o'r poteli hynotaf oedd honno'n cynnwys neges gyfrinachol i'r Frenhines Elisabeth I. Yn 1560 ysgrifennwyd neges gan rai o ysbiwyr Prydain yn nodi fod Novaya Zemlya, ynys fawr yn yr Arctig, wedi ei chipio oddi ar y Rwsiaid gan yr Iseldiroedd. Nid oes neb yn hollol sicr pam y rhoddwyd y neges mewn potel a'i thaflu i'r môr, oherwydd nid oedd sicrwydd y byddai'n cael ei darganfod. Er hynny, glaniodd y botel ar draeth ger Dover, ac fe'i hagarwyd gan forwr. Pan ddeallodd y frenhines fod y neges gyfrinachol wedi ei ddarllen, aeth yn gandryll, gan fygwth marwolaeth ar unrhyw un arall yn ei theyrnas a wnai y fath beth. Pasiwyd deddf i wahardd pobl rhag darllen neges a roddwyd mewn potel, ac apwyntiwyd person arbennig i fod yn gyfrifol am y gwaith. Ei deitl swyddogol oedd 'Uncorker of Bottles'. Parhaodd y ddeddfod hon am 200 o flynyddoedd.

CYMORTH MEWN POTEL

Mae amryw o forwyr wedi anfon negeseuon mewn poteli yn gofyn am gymorth ar ôl cael eu llong-ddryllio. Anodd iawn yw credu'r stori hon, ond mae'n berffaith wir. Yn 1784 aeth llong fechan o Japan i chwilio am drysor i Fôr y Pasiffig. Daeth yn storm, a drylliwyd y llong ar rîff o gwrel. Mae'n fwy na thebyg i'r holl forwyr - 45 ohonynt - foddi neu farw o newyn. Ond anfonodd un o'r morwyr neges mewn potel cyn marw. Cerfiodd y neges ar ddarn o bren gan ddisgrifio cyflwr y morwyr. Matsuyama oedd enw'r morwr. Yn 1935, dros gan mlynedd a hanner yn ddiweddarach, cyrhaeddodd y botel Japan, gan lanio, trwy ryfedd wyrth, ar draeth ym mhentref genedigol Matsuyama! Ond erbyn hynny, wrth gwrs, roedd hi'n rhy hwyr!

Sgwn i a oes gennych chwi stori ddiddorol i'w hadrodd am neges mewn potel?

CYSTADLEUAETH

Y cwbl sydd angen ei wneud yw ail-drefnu'r llythrennau hyn i roi un gair yn unig:

GGUUNNNIYAR

Nid enw person nac enw lle; nid gair dieithr nac anghyffredin; dim ond un gair yn unig.

Byddwch yn dditectif. Pam nad yw'r ddwy stori hon yn wir?

STORI 1

Derbyniodd yr heddlu neges ar y ffôn gan ŵr yn dweud iddo ddarganfod ei gyfaill gorau wedi marw. Dywedodd iddo ddod o hyd i lythyr gan ei gyfaill rhwng tudalennau 101 a 102 o'r Beibl. Roedd y llythyr yn dweud fod ei gyfaill yn bwriadu cyflawni hunan-laddiad.

STORI 2

Breuddwydiodd rhyw wraig ei bod yn boddi, a dychrynodd gymaint fel y bu farw o drawiad ar y galon yn ei chwsg.

I'CH DIDDORI

C. Beth sy'n wyn ar y tu allan, yn

felyn a gwydd ar y tu mewn, ac yn neidio o gwmpas y bwrdd bwyd?

A. Brechdan llyffant!

C. Sut fath o ieir sy'n chwarae pêl-droed ond heb wybod y rheolau?

A. Ffowls.

C. Beth sy'n ddu i gyd, yn ddall bost, ac yn rhuthro allan o'r ddaear ar chwe deg milltir yr awr?

A. Twrch daear ar gefn motor beic!

Tro Trwstan ym Methel

Allegro glas a welsom,
Ar fore Gwener braf,
Ger ysgol Gynradd Bethel,
A hithau'n ganol haf.

Elwyn oedd y dreifar
A yn y sêd gefn
Yn bygwth rhoddi Valliums
I gadw'r cwn mewn trefn.

Tob a Sash yn cyfarth
A yn chwys i gyd
Tra safai Wena druan
A Bet, a Sian yn fud.

Dihangodd mewn gwewyr
I droedio tua thre,
Gan adael plant y pentre
Yn chwerthin dros y lle.

Am bwy mae'r sôn tybed?

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY

Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
â diodydd

Y DIWEDDAR 'GYNGHORYDD TREFOR WYN WILLIAMS, DFC.

Teyrnged gan Gwynfor Williams, Llanberis



Syfrdanwyd ardal gyfan o glywed y newydd trist am farwolaeth sydyn y diweddar Gynghorydd Trefor Wyn Williams, DFC., Coed y Glyn, Llanberis. I bobl y tu allan i Lanberis fe'i hadwaenid fel Cynghorydd Trefor Wyn Williams ond i ni bobl Llanberis Trefor Erw Fair ydoedd. Yn ei farw collasom gymeriad hynod iawn, un a wnaeth gymaint dros ei ardal ac un hefyd a oedd wrth ei fodd yn gwneud cymwynasau i'w bobl a phob amser yn falch o groesawu unrhyw un i'w aelwyd gyda'u problemau.

'Roedd yn fawr ei barch gan bawb ac ar ddydd ei angladd 'roedd Capel Nant Padarn yn orlawn o gyfeillion a chydnabod a oedd wedi dod o bell ac agos i dalu parch i un a roddodd gymaint i'w ardal a'i phobl.

Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Dolbadarn, ac yna yn Ysgol Brynrefail. Fel llaweroedd o fechgyn y cylch fe aeth o'r ysgol i weithio i'r chwarel i ddysgu'r grefft o naddu'r graig a chafodd addysg dda ymhlith gwyr diwylliedig y bonc. Pan dorodd yr ail ryfel byd allan fe ymunodd i'w ffordd a'r awyrlu ac yn fuan sylweddolwyd fod gan y bachgen o Arfon allu arbennig ac fe'i comisiynwyd yn Swyddog a chyn hir yr oedd yn Swyddog Hedfan.

Ei ddyletswyddau fel Swyddog oedd arwain awyrennau ar ymosodiadau ar rannau o'r Almaen ac ar un o'r ymosodiadau hyn fe ymosodwyd arnynt gan y gelyn a chafodd ei awyren ei tharo; er hyn, ac yn wyneb y fath berygl fe lwyddodd i arwain ei lu yn fuddugoliaethus gan eu harwain drachefn adref yn ddiogel. Am ei ddewrder a'i wasanaeth fe'i hanrhydeddwyd gyda'r D.F.C. Ar ddiwedd y rhyfel fe barhaodd ymlaen yn yr awyrlu gan wasanaethu ym mhob cwr o'r byd gyda'r gwasanaeth Deallusrwydd.

Wedi cwblhau dwy flynedd ar

hugain yn yr awyrlu daeth awydd angerddol i ddychwelyd yn ôl i'w ardal enedigol ac ymgartrefodd ef a'i deulu bach yng ngwesty Erw Fair lle bu'n llwyddiannus iawn fel gŵr busnes ond oherwydd cyflwr ei iechyd fe'i gorfodwyd i ymddeol. Ymhen ychydig amser fe'i penodwyd yn Swyddog Gweinyddu yng ngwaith gorsaf Drydan Dinorwig, swydd a lanwodd hyd yr ymylon ac 'roedd yn fawr ei barch gan ei gyd-swyddogion ynghyd â'r gweithwyr oddi tano. Ychydig a feddyliai wrth adael y chwarel i'r awyrlu y dychwelai fel uchel swyddog i ddiwedd ei ddyddiau yn yr hen chwarel.

Yn ystod y blynyddoedd cymerodd lawer iawn o ddiddordeb yn ei ardal ac fe'i hetholwyd ar gyngor Dosbarth Arfon, Cyngor Sir Gwynedd heb anghofio ei ffyddlondeb ar gyngor Cymuned Llanberis. Yn wir, yr oedd wedi ymdrechu i fod yn bresennol yn y cyngor noson ei farw ac ychydig a feddylodd neb ohonom y noson honno mai dyma'r tro olaf inni gael ei gwmni a'i gyfraniad yn y cyngor. Roedd yn ffyddlon hefyd i'w ardal a'i phobl ac yn barod bob amser i wneud unrhyw beth a fyddai o les i'w bentref.

Ychydig wythnosau cyn ei farw fe'i hetholwyd yn gadeirydd Pwyllgor Cynlluniau Cyngor Arfon. Roedd hyn yn anrhydedd o'r mwyaf ac yn dangos gymaint oedd parch ei gyd-gynghorwyr tuag ato.

Roedd yn gymeriad doeth a theg a phob amser yn foneddigaidd tuag at bawb ac nid rhyfedd felly ei fod yn uchel ei barch gan ei gydnabod ac yn boblogaidd mewn llawer cylch.

Mae Llanberis dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael sawl colled, bylchau mawr, ac ym marwolaeth Trefor Wyn Williams, dyma golled arall a bwlb arall na fydd yn hawdd ei lenwi. Na, nid hawdd fydd llenwi bwlb un a fu mor barod ei gymwynas a'i gydymdeimlad ac yn ei farwolaeth collodd Llanberis a'r cylch Gyfaill da, Cynghorydd doeth a Chymwynaswr mawr.

Braint oedd cael adnabod y bonheddwr hwn a gallwn ddweud mewn gwirionedd 'Yr hyn a allodd hwn efe a'i gwnaeth' a diolchwn i Dduw am ei fenthg.

Mae'n cydymdeimlad yn fawr gyda'i briod Betty a fu cymaint o gymorth iddo dros y blynyddoedd a chyda'i blant, Paul a Gillian, ynghyd â'i frawd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

PENISARWAUN

GWYLIAU - Aeth amryw o'r pentrefwyr i wledydd tramor ar eu gwyliau. O ystyried y tywydd gwael a gawsom yr oedd hyn yn beth doeth. Bu Mrs Mary Davies a Berwyn Patterson i Awstralia i weld y teulu. Aeth Mr a Mrs Ken Williams i Teneriffe a man gwyliau Mr a Mrs Lamb oedd Denmarc. Clywsom am y rhain ond yn ddiau bu eraill dros y môr ond heb i ni glywed amdanynt. Mae teulu Mr a Mrs I. Griffith, 5 Bryn Tirion yn yr Eidal. Mae Dafydd Evans, Bryn Eglwys yn yr Almaen gyda Chôr Meibion y Penrhyn.

GWYLIAU TRIST - Collasom dri o'n cyfeillion yn ystod y gwyliau - y tri oedd Miss Thomas, Stabla; Mr Percy Atack, Ortavia; a Mr Percy D. Williams, 3 Llys y Gwynt. Mae'r fro yn dlotach lle hebddyn nhw ac yr ydym ni fel ardalywyr yn anfon ein cydymdeimlad llwyr i'w teuluoedd yn eu gofid a'u profedigaeth.

Miss Thomas - Yr oedd hi dros 90 mlwydd oed ac mewn ysbyty ar adeg ei marwolaeth.

Mr Percy Atack - Bu farw yn sydyn yn ei gartref yn Ortavia ym Mhenisarwaun. Gŵr o'i ffwrdd oedd o ond gyda chysylltiadau lleol. Pan yn ŵr ifanc bu'n gweithio yng Nghaernarfon ac mae ei wedd yn hanu o'r ardal. Yr oedd o'n barod ei wên ac yn gyfeillgar.

Mr Percy D. Williams - Ychydig ar ôl Mr Atack bu farw Mr Percy D. Williams yn sydyn yn ei gartref. Un o'r ardal oedd o; gŵr caredig, darlengar ac yn aelod ffyddlon o'r achos yng Nghapel y Glasgoed lle yr oedd yn flaenor.

Y mae eu teuluoedd yn ddiolchgar i bawb am eu caredigrwydd yn ystod eu profedigaeth.

CROESO'N ÔL - i Mrs Evans o'r ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chi.

MARW - Bu farw Mrs Annie Owen

(gynt o Dŷ Capel Glasgoed) yn 93 mlwydd oed. Mae cydymdeimlad llwyr y pentref gyda theulu'r mab sef Mr a Mrs John Owen, Penrhyn Bach, a chyda'i chwaer, Miss Miriam Thomas, Bwthyn Ty'n Radd, Waun.

PRIODAS - Llongyfarchiadau i Miss Janet K. Jones, Plas Dulas ar achlysur ei phriodas yng Nghapel Glasgoed. Yr ydym yn dymuno pob hapusrwydd iddi hi a'i gŵr.

LLONGYFARCHIADAU - i Douglas, mab Mrs Jones a'r diweddar Mr Richard Jones, Tŷ Gwyn, Waun ar ennill ohono ei radd B.Add. Mae yn athro ym Mynydd Isaf, Clwyd, yn briod gydag un ferch fach, Mererid.

I Mr Dafydd Evans, Sycharth, Bryn Eglwys ar ennill gradd B.Add. Mae Dafydd yn aelod o staff Ysgol Brynrefail.

POB DYMUNIAD DA - i Mrs Ann Evans, Sycharth, Bryn Eglwys sydd yn dechrau ar ei gwaith fel athrawes yn Ysgol Gynradd, Tan-y-coed, Penisarwaun.

GŴYL Y PENTREF - Cafodd pawb wythnos o hwyl ac adloniant iach yn ystod wythnos carnifal y pentref. Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor am eu gwaith caled, a'r beirniaid am roi o'u hamser. Gresyn o beth, serch hynny, oedd gweld rhai o blant hyn y pentref yn taflu cerrig at y bws oedd yn cludo'r plant o ysgolion y Waunfawr, y Gelli a'r Santes Helen adref ar ôl y pêl-droed a'r 'rownders'.

LLUN YN Y CYMRO - Braf oedd gweld llun Eurgain, Bedwyr ac Osian, 5 Bryn Eglwys ar dudalen y plant yn 'Y Cymro'. Byddai'n beth braf cael gweld rhagor o blant bach y pentref yn ymuno â Chlwb Plant y Cymro.

LLONGYFARCHIADAU - I Gwynfor, mab Mr a Mrs John Hughes, Gwynfryn, Groeslon Racca, ar ennill Gradd gydag anrhydedd mewn hanes yng ngholeg y Brifysgol Bangor. Mae Gwynfor wedi dilyn ôl troed ei dad wrth ymuno â Heddlu Gogledd Cymru. Dymuniadau gorau iddo.

AR WERTH

Sportscoat wyrdd i fachgen. Chest - 34". £4. 2 Bryn Fedwen, Llanrug. Ffôn, Caernarfon 5411.

Teiar Henley Newydd 5.60 x 15 (V.W.) £10.00

Coets gadair a Gorchudd Glaw. Fel Newydd £8.00

20 Glanffynnon, Llanrug

Mini Clubman Ystad 1971. 998 cm. Tystysgrif Brawf tan gorffennaf 1981. Cyflwr Da. £600. Waunfawr 545.

Coets 'Mothercare' (Glas - navy). Llanberis 867
Mewn cyflwr da.

GWASANAETH NEWYDD YNG NGHAERNARFON



Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS

CAERNARFON (Ffôn: 5262)

LLANRUG

MERCHED Y WAWR – Agorir y tymor nos Fawrth, Medi 9 yn yr Ysgol Gynradd am hanner awr wedi saith. Y siaradwr gwadd fydd Mr Dafydd Whiteside Thomas ac edrychwn ymlaen at ei sgwrs ar 'Hanes Llanrug'. Croeso cynnes i aelodau newydd.

LLWYDDIANT ADDYSGOL – Llongyfarchwn D. Berwyn Owen, Glasgoed ar ei llwyddiant yn ennill Diploma mewn Peirianeg Sifil yng Ngholeg Technegol Bolton. Mae Berwyn eisoes wedi dechrau ar ei waith mewn swydd o dan Gyngor Sir Gwynedd.

Llongyfarchwn hefyd Mary Roberts, Gwyndy ar ei llwyddiant yn ennill y radd Ll.B. yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Dymunwn i'r ddau bob llwyddiant i'r dyfodol.

Y SEINDORF – Nos Sul, Mehefin 22 cymerodd y seindorf ran yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yng Nghapel Pontrhythallt ar ddechrau Wythnos Gornifal Llanrug. Ar y Sadwrn canlynol roeddynt yn arwain yr orymdaith o Bontrhythallt i'r Ysgol Gynradd. Nos Fercher, Gorffennaf 2 rhoddasol y cyntaf o'u cyngherddau wythnosol yr haf ar faes Caernarfon. Ar Orffennaf 5 aethant i Gornifal Llangefni ac ar y ffordd adref i Wyl Treborth i roi cyngerdd byr i'r dorf. Trannoeth cychwynasant i Lanrwst i roddi adloniant i'r ymwelwyr a ddaeth i Rali Moduron 'Vintage' a gynhelid ar dir Castell Gwydir. Gorffennaf 8 cawsant noson ddiffr iawn yn Neuadd Reichel Bangor yn difyrru ymwelwyr o bob rhan o'r wlad.

Cynhaliwyd noson o Tombola yn Ystafell y Seindorf ar Orffennaf 14 a charem ddiolch i bawb am eu rhoddion.

Nos Sadwrn, Gorffennaf 14 dechreuodd Wythnos Wyl Caernarfon a llogwyd y seindorf i arwain gorymdaith y Breninesau a'r Majorettes. Yn Gellilydan roedd y carnifal olaf o'r mis ar y chweched ar hugain.

GENI – Ein llongyfarchion i Mr a Mrs Dafydd Thomas, Cefn Rhythallt ar enedigaeth mab; hefyd i Mr a Mrs Gwilym Davies, 2 Minffordd ar enedigaeth merch.

BEDYDD – Mewn oedfa arbennig i'r plant a gynhaliwyd yng Nghapel Pontrhythallt y mis diwethaf, bedyddiwyd Ynyr Gruffudd, mab bychan Tegid a Nant Roberts, Arwel, gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Yn dilyn cyflwynwyd llyfrau i'r plant canlynol am lwyddo yn yr Arholiadau ynglŷn â'r Ysgol Sul: Gwyed a Rhodri ap Llwyd, Catrin a Dyfed Whiteside Thomas, Iwan Llŷr, Iolo ac Ieuan Griffith, Martin R. Davies, Christine a Gareth Lloyd Jones, Marian a Martin Roberts, Dianne, Sharon ac Ian Thomas, Jean Roberts a Susan McNall. Cyflwynwyd tystysgrifau i Mrs M.L. Williams, Mrs N. Pritchard a Mrs E. Wh. Thomas.

LLONGYFARCHION – eto i Mrs M. Lloyd Williams ar yr anrhydedd a ddaeth i'w rhan, sef cael ei hurddo yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw.

LLONGYFARCHIADAU – i Mrs Mair Huws, Cilmeri, Glanffynnon ar ei phenodi yn athrawes Ysgol Gynradd Llanrug. Hefyd i Mr Gwyndaf Owen, Ferndale ar ei benodiad i swydd athro yn Ysgol Gynradd Botwnnog. Ein dymuniadau gorau i'r ddau yn eu swyddi newydd.

LLYWYDD YR HENADURIAETH – Mewn cyfarfod o Henaduriaeth Arfon a gynhaliwyd yng Nghapel Baladeulyn, Nantlle, Gorffennaf 8, sefydlwyd Mr D. Glynne Owen, Llys Eryri yn Llywydd yr Henaduriaeth am

yr hanner blwyddyn nesaf, yn olynydd i'r Parch Elfed ap Nefydd Roberts, Bangor. Dymunwn bob bendith iddo yn ystod tymor ei lywyddiaeth.

CROESO ADREF – Balch oeddym o weld Miss Enid Jones, Parc Isaf adref am seibiant o Johannesburg. Mae Miss Jones wedi treulio rhai blyneddoddd yno. Da gweld ei brawd, Mr Emlyn Jones yn parhau i wella.

MARW – Dydd Mercher, Gorffennaf 30 bu farw Miss M. Thomas, 3 Madog Terrace yn 92 mlwydd oed. Bu gwasanaeth yng Nghapel Pontrhythallt lle roedd yn aelod cyn ei hebrwng i fynwent Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch W.O. Roberts. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Mwynhaodd aelodau'r Gymdeithas Undebol eu gwibdaith flynyddol eleni trwy fynd i Gastell Penrhyn, ger Bangor, yna ymlaen i Fiwmares ac o amgylch Ynys Môn. Edrychir ymlaen at dymor llwyddiannus i'r Gymdeithas. Mae'r rhaglen eisoes wedi ei threfnu. Y Llywydd yw Mrs Iola Butler, Haddef; Trysorydd, Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan a'r Ysgrifennydd yw Mrs E. Wh. Thomas, Dolwar.

O'R YSBYTY – Dymunir adferiad iechyd i Mrs J.E. Roberts, Gwyndy ac i Mrs M.E. Williams, Afallon, Pontrhythallt wedi cyfnod yn yr ysbayt ym Mangor.

MARW – Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Hugh O. Jones, 11 Hafan Elan. Cydymdeimlir â'i briod a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Mr Emrys Jones, mab Mr Thomas Jones, 1 Glanmoelyn. Estynnir ein cydymdeimlad llwyr â Mr Jones a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

MARW GŴR DIWYLLIEDIG – Fore Sul Gorffennaf 13 collodd ardal Llanrug un o'r gwyr mwyaf diwylliedig a droediodd ei daear ym marwolaeth y diweddar Humphrey Owen Evans, Llys Myfyr. Collodd eglwys y Capel Mawr hefyd golofn hardd a chadarn oedd yn flaenor doeth a duwiolfrydig. Ganwyd a magwyd ef yn ardal y Bontnewydd, yn un o dyaid o blant. Ni chafodd lawer o fanteision addysg ym more ei oes; ond mae'n amlwg iddo ymroi i'w addysgu a'i ddiwyllio ei hun yn gynnar iawn ar ei fywyd. Ar ôl gadael ysgol bu'n gwasanaethu ym myd amaethyddiaeth am rai blyneddoddd cyn dechrau ar alwedigaeth ei fywyd fel saer maen. Hoffai sôn yn aml am y caledi a brofodd ef a'i genhedlaeth yn eu blyneddoddd cynnar. Bu'n gweithio fel saer maen gydag amryw o gwmnïau cyn mynd i chwarel Dinorwig i ddilyn yr un alwedigaeth. Yr oedd enw da iddo fel crefftwr medrus a ymhyfryddai bob amser yn ei waith. Ymsefydlodd ef a'i briod yn Llanrug bron i drigain mlynedd yn ôl, pryd y symudasant i Lys Myfyr. Edrychid i fyny ato gan bawb a gafodd y fraint o'i adnabod fel gŵr diwylliedig ei feddwl, a diogel ei farn. Go brin y gellid dod ar draws neb digoleg oedd yn fwy hyddysg mewn barddoniaeth Gymraeg, a hyd yn oed farddoniaeth a llenyddiaeth Saesneg nag ef. Dewiswyd ef yn Flaenor yn y Capel Mawr, a chafodd yr eglwys ynddo was da a ffyddlon a roddodd ei orau yn mhob rhan o'i gwaith. Yr oedd yn ŵr o argyhoeddiadau cadarn yn wleidyddol a chrefyddol, a mynnai sefyll dros yr argyhoeddiadau hynny bob amser. Gwyddai, fel pob cymeriad gŵr fawr, beth oedd plygu hefyd, – plygu gerbron yr Arglwydd

ei Wneuthurwr. Yr oedd yn weddiwr mawr yn y dirgel ac yn gyhoeddus, a bu ei adnabyddiaeth sicr o'i Dduw yn gymorth difesur iddo ym mlyneddoddd olaf ei fywyd pan oddiweddwyd ef gan lesgeidd a henaint, a'r ddwy brofedigaeth o golli ei briod annwyl a'i ferch. Gedy mewn galar ar ei ôl ferch a mab, Mrs Kate Olwen Evans, Llanwnda a Mr J. Meirion E. Evans, a'i chwaer Mrs Fox. Bu'r angladd ddydd llau, Gorffennaf 17 pryd y gwasanaethwyd yn Llys Myfyr gan ei weinidog y Parch W.O. Roberts, yn cael ei gynorthwyo yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parch Harri Parri, Caernarfon. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teulu yn eu trallod a'u hiraeth. Nawdd y Nef a fo trostynt.

W.O. Roberts

TRIP UNDEB Y MAMAU – Bu taith ddirgel Undeb y Mamau a'u cyfeillion ym mis Gorffennaf. Trefnwyd y daith gan y Rheithor ac aed trwy Arfon, Llŷn ac Eifionydd a chyrraedd Gwesty yr Afr ym Meddgelert i fwynhau pryd mewn basged a chaed rhaglen o ganu yn canlyn. Bu i bawb fwynhau ei hunain yn fawr iawn. Yn ystod y daith caed sylwadau ar leoedd o ddiddordeb ac fe yrrwyd cerdyn arbennig at Mrs C. Owen, Isfryn, Cwm-y-glo, wedi ei arwyddo gan bawb oedd ar y bws yn dymuno iddi adferiad llwyr a buan.

TRIP CLWGB BLODAU'R GRUG – Bu taith ddwbl Clodau'r Grug yn ystod mis Gorffennaf wedi ei threfnu gan y Cadeirydd. Cychwynwyd drwy Borthmadog a threulio tua dwy awr yn y dref honno. O Borthmadog fe aed drwy Drawsfynydd ac heibio i Gofgolofn Hedd Wyn ac i'r Bala a thrwy ardal Glanllyn i dref y Bermo a threulio ychydig amser yno ac yna adref drwy Ardudwy a thrwy

Arllechwedd i Fetws-y-coed ac yna drwy Fwlch Llanberis adref yn ôl. Rhoddwyd sylwadau ar fannau o ddiddordeb gan y Rheithor. Caed taith hynod ddiddorol ac fe fu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr.

Mae dwy o'r aelodau, sef Mrs Nell Williams, 6 Hafan Elan a Mrs J.E. Roberts, Gwyndy yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunir adferiad llwyr a buan i'r ddwy.

LLONGYFARCHIADAU – I Eleri, Lwengyn, Tyddyn Alis, Llanrug ar ei llwyddiant yn arholiad piano, Gradd I.

Beth am gystadlu yn 'Steddfod Llanrug?

Mae'r testunau allan o'r wasg ac eisoes ar werth o ddrws i ddrws ym mhentref Llanrug. Sicrhewch gopi o'r siopau lleol os na chawsoch un, a beth am fwrw iddi i gael 'steddfod lwyddiannus eto.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd

Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

LLYFRAU

Dyma rai o'r llyfrau diweddaraf i'w cyhoeddi dan nawdd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru:

Glas y Don. Hugh D. Jones. Nofel fuddugol Cystadleuaeth Genedlaethol Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc. Yn ôl y beirniaid dyma nofel "ddarllenadwy, difyr, gafaelgar a chyffrous." Ychwanegwyd fod ynddi "ddigon o ddarlunio byw i alluogi rhywun i wneud cyfres deledu o'r stori."

Llygad y Daran. J. Selwyn Lloyd. Gwasg Gomer. Pris £2.00. Nofel antur wedi'i lleoli yng ngwlad yr Indiaid Cochion. Gwobrwywyd y nofel hon yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1977. Brodor o Dal-y-sarn, Dyffryn Nantlle yw'r awdur.

Arweiniad at Bwdaeth. Glyndwr Harris. Gwasg Christopher Davies. Pris £3.50. Disgrifiad o rai o syniadau canolog y grefydd drwy ddilyn patrwm ei chyffes ffydd sylfaenol.

Goleudai. Gwenllian Lloyd Evans. Gwasg y Dref Wen. Pris 85c. Cyfrol ffeithiol wedi ei darlunio ar gyfer plant yn yr ysgol gynradd sydd wedi bod yn dilyn y Project Dwyieithog. Digonedd o weithgareddau diddorol.

Yr Afanc; Yr Eliffant; Y Gleren; Y Pengwin. Gwasg y Dref Wen. Pris tua 75c yr un. Dyma'r trydydd grŵp o bedwar llyfr i ymddangos yng Nghyffres y Seren. "... Maent yn cyflwyno creaduriaid y byd mewn ffordd gryno a syml. Mae'r llunau yn nodedig am eu harddwch a'u manylder." Cyhoeddir y gyfres drwy gydweithrediad Awdurdod Addysg Clwyd.

Yr Iâr Goch a Storiâu Eraill. Irma Chilton. Gwasg Gwynedd. Pris £1.25. Cyfrol a storiâu byrion ar gyfer plant yr ysgolion meithrin.

Y Syrcas a Storiâu Eraill. Irma Chilton. Gwasg Gomer. Pris £1.85. Casgliad o storiâu cyffrous ar gyfer disgyblion yr ysgol uwchradd.

Hwyl Gyda Siapiau Mathemateg. Morfudd Strange. Gwasg Gwynedd. Pris £1.00. Cyflwynir y sgwâr, yr hirsgwar a'r cylch. Mae'r deunydd wedi ei raddio yn ôl datblygiad

mathemategol ac ieithyddol y plentyn.

Plentyn Amser. Doreen Wynne. Gwasg Gomer. Pris £1.85. "Cyfuniad hynod o stori serch, stori arswyd a stori ysbrydion."

ADOLYGIAD

Tros Ryddid Daear. Casgliad o Gerddi Gwleidyddol T.E. Nicholas.

Mae bron ddeng mlynedd er bu farw'r Comiwnydd gwlatgar Niclas y Glais. Oherwydd ei neges sosialaidd fe anwybyddwyd barddoniaeth Niclas gan y sefydliad parchus Cymreig. Fel y dywed y rhagymadrodd i'r llyfr hwn "pe ceid cyfiawnder ym mhalasau antiseptig dysg Cymru câi gweithiau Niclas le blaenllaw yng nghyrsiau Prifysgol-Lloegr-yng-Nghymru a byddai argraffiad canmlwyddiant moethus o'i waith ar gael." Ond, yn lle hynny, rhaid oedd i Farcswyr cymdeithas Niclas fynd ati eleni i gyhoeddi'r detholiad hwn o gerddi a gyfansoddwyd yn ystod y cyfnod 1909-69.

Cerddi tanbaid ysbrydoledig ydynt; tra gwahanol i'r arlwy arferol yn y Gymraeg. Neges sosialaidd a rhyngwladol y cerddi sy'n bwysig; arf ydynt ym mrwydr y dosbarth gweithiol i gael 'madael â'r drefn imperialaidd gyfalafol er mwyn gwneud lle i deyrnasiad cyfiawnder, brawdoliaeth a gobaith.

Heddiw mae'r drefn gyfalafol yn dechrau gwegan unwaith eto a'r cyfalafwyr yn paratoi rhyfel tra bo gwerin Cymru wedi ei bradychu gan genhedlaeth gyfan o 'arweinwyr' dosbarth gweithiol manteisgar, ofnus a diweledigaeth. Mor bwysig heddiw yw cofio disgrifiad Niclas yn 1942 o'r drefn gyfalafol: "Pawb yn casâu'r trychineb a heb allu Atal gorymdaith distryw dros y byd ...

... Ofer, â'r bwystfil gwaedlyd ar ei sedd, Yw chwenych bywyd a dymuno hedd."

Trwy gydol ei fywyd cadwodd Niclas at ei weledigaeth chwyldroadol heb gyfaddawdu dim yn ei fywyd na'i gerddi. Yn 89 mlwydd oed disgrifiodd 'Syrcas Caernarfon', sef yr arwisgiad ym 1969, fel hyn:

"Ail-blennir y faner estron ar gestyll Cymru,

A phlyg pendefigion i'r Sais fel brwyn yn y gwynt,

A gwerin y graith, etifeddion y cawl a'r llymru

Yn anghofio slogan pont a chraig yn Eryri gynt;

Yng nghymanfa gwallgofiaid Cymru cyhoeddaf yn groch

Fod ystafelloedd y castell yn dylcau moch."

Er iddo weld y dosbarth gweithiol yn cael ei fradychu a'i dwyllo dro ar ôl tro ni cholodd Niclas ei ffydd y deuai dydd buddugoliaeth dros y dosbarth cyfalafol. Gwelir hyn yn "Rwy'n Gweld o Bell" (1965):

"Pethau dros dro yw tloedi a brenhinoedd,

Tristwch, gorthrymder dyn ar ddyn, a chad:

Gwela'r o bell fyddinoedd y gwerinoedd

Yn gyrru'r treiswyr allan o bob gwlad,

Er bod y niwl ar gymoedd dwfn yn cau,

Mae pen y brynau'n dechrau llawenhau.

Mae'n siŵr y bydd y detholiad hwn o gerddi, yn unol â bwriad Cymdeithas Niclas, yn gyfraniad at hybu'r ymwybyddiaeth chwyldroadol yng Nghymru. Trwy wneud hynny bydd enw Niclas y Glais yn cael ei goffáu mewn ffordd deilwng.

Mae copïau o 'Tros Ryddid Daear' (£2.40) ar werth yn Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug.

WAUNFAWR

ER I OLWEN A NORMAN WILLIAMS roi'r gorau i'w gwaith swyddogol fel gohebwyr yr Eco yn y Waunfawr gyda rhifyn Gorffennaf, rydym yn ddiolchgar iawn iddyn nhw am eu cymorth eto gyda'r rhifyn hwn. Yn y cyfamser rydym yn dal i chwilio am ohebydd newydd i'r pentref.

Tony Elliott - Golygydd SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Gorffennaf 3. Estynnodd Mrs C.A. Jones y llywydd, groeso i Mrs Ann Williams fel ymwelydd i'r cyfarfod. Yn ei haraith dywedodd Mrs Jones fod pawb wedi mwynhau eu hunain ar y trip i Gastell Powis, a dymunodd adferiad buan i Mrs Parry Williams. Darllenwyd adroddiad o'i hymwelid i'r Cyfarfod Blyneddol yn Neuadd Albert yn Llundain gan Mrs Doris Roberts. Diolchwyd iddi gan Mrs C.A. Jones a Mrs Alice Johnstone. Rhoddodd y wraig wadd, Mrs Rhian Williams sgwrs a dangosodd ffilm ar ei gwaith fel aelod o Heddlu Gwynedd. Diolchodd Mrs Alice Johnstone iddi. Enillydd y raffl oedd Mrs Morley Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau Medi 4 a'r gŵr gwadd fydd Dr. R.S. Williams.

GENEDIGAETH - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Edgar Jones, Bryn Teg ar enedigaeth mab, Richard, brawd i Mathew. Croeso cynnes i'r teulu yma i'r Waunfawr, a gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

CYFARCHION PEN-BLWYDD - Llongyfarchiadau i Gwenno Owen, Tref Eilian a Nerys Thomas, Haulfryn ar gyrraedd eu deunaw oed.

LLONGYFARCHIADAU - i Elizabeth Owen, Noddfa, Tref Eilian ar lwyddo yn ei harholiadau S.R.N. yn ddiweddar.

Ann Ll. Griffiths, Eirianallt ar ei hapwyntiad ar staff Banc T.S.B. yng Nghaernarfon.

I Mr Rol Williams, Ardwyn a Mrs Helen Williams Ross o Efrog Newydd, chwaer Miss Oweilda Williams, Bod Iwan ar gael eu hanrhydeddu yn Eisteddfod Dyffryn

Lliw, fel aelodau o Orsedd y Beirdd. CROESO ADREF O'R YSBYTY - Mae nifer o bobl wedi derbyn triniaethau yn yr ysbty yn ddiweddar. Croeso adref i Miss Katherine Elizabeth Williams, Is Eilian; Mrs Katherine Bracegirdle, Tref Eilian; Miss Jane Elen Hughes, Ael y Bryn; Mr Ifan Wyn Roberts, Ael y Bryn a Mrs Williams, Ffridd Felen. Dymunir adferiad buan hefyd i Mrs Phyllis Jones, Rhoslan a Mrs Mary Lloyd Jones, Bryn Tawel sydd wedi bod yn cwyno gartref.

YR YSGOL FEITHRIN - Bydd y tymor newydd yn dechrau gyda phaned a sgwrs yn Festri Croes y Waun am ddeg o'r gloch fore Llun Medi'r 1af. Croeso cynnes i bawb.

YR YSGOL - Yn yr Ymgych Gwerthu Llyfrau Cymraeg 1980, gwerthwyd 110 o lyfrau gwerth £116 gan bedwar o fechgyn o'r ysgol. Gwerthodd Llion Iwan werth £49; Huw Ynyr Jones werth £26.50; Kevin Roberts werth £22.25 ac Iwan Ellis werth £18.75. Llongyfarchiadau i'r bechgyn a diolch i bawb a brynodd lyfrau ganddynt.

MERCHED Y WAWR - Ar ddiwedd y tymor diwethaf gwnaethpwyd elw o £60 tuag at Gronfa Goffa Rhian Wyn, yn ystod rali geir a drefnwyd gan John Roberts a Don Roberts. Dafydd Iwan a'r teulu ddaeth yn fuddugol. Diolch i'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y tymor a aeth heibio.

Y pwyllgor ar gyfer y tymor newydd fydd - Rhian Ellis (Llywydd), Mrs Mary V. Jones (is-lywydd), olwen Williams (ysgrifennydd), Llinos Cadwaladr (is-ysgrifennydd), Eluned Roberts (trysorydd), Bet Hughes (is-drysorydd), Mrs N. Miles, Mrs Beryl Jones, Mrs Greta Hughes, Mrs Gweneirys Jones a Brenda Jones, Betws Garmon.

Bydd y tymor yn dechrau ar nos lau, Medi'r 25 am 7.30 yn Neuadd yr Eglwys, pryd y ceir sgwrs gan y Dr Derec Llwyd Morgan ar y testun 'Merched a Rhyw Adeg y Diwygiad'. Apeliwn am bresenoldeb yr aelodau yn y cyfarfod agoriadol hwn, ac estynnwn groeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

**Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth**

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

I Gristion o Gymro sydd hefyd yn ymddiddori mewn hanes, yr oedd dau atyniad go bwysig i ymweld â hwy ar y cyfandir yn ystod misoedd yr haf eleni. Y cyntaf oedd yr Arddangosfa yn dwyn y teitl 'Celtiaid yng Nghanolbarth Ewrop' a gynhelid yn nhref Hallein, rhyw ddeng milltir i'r de o'r ddinas enwog Salzburg yng ngogledd Awstria. Saif y dref ar wastatir eang sy'n ymestyn o'r Almaen gerllaw, a chyfyd rhai o fynyddoedd yr Alpau yn fur cadarn tu cefn iddi. Fel yr awgryma'r enwau Hallein a Salzburg, HALEN sydd wedi bod yn un o'r nwyddau pwysicaf yr ardal ers canrifoedd. Bu cloddio amdano yn y brynau gerllaw Hallein ers cyn cyfnod Crist a phery'r diwydiant ar raddfa fach hyd heddiw.

Ardal Hallein oedd crud diwylliant y Celtiaid ac oddi yno y lledaenodd y bobl dros ganrifoedd i'r de-ddwyrain i gyfeiriad gwlad Groeg ac Asia Leiaf, ac i'r Gogledd a'r Gorllewin cyn belled â Chymru ac Iwerddon. Yr hyn a ysgogodd yr Arddangosfa eleni oedd y darganfyddiadau goleuedig a wnaethpwyd gan archaeolegwyr yn y deng mlynedd diwethaf ar fryn o'r enw Dürrnberg ger Hallein. Darganfuwyd beddrodau yno ynghyd â thrysorau cain sydd wedi bod yn gymorth i haneswyr ddysgu llawer mwy am ffordd o fyw y bobl ryfeddol hyn - gyda llaw ein cyn-deidiau ni y Cymry!

Benthyciwyd llu o dlysau, addurniadau, arfau ac offer y Celtiaid o sawl gwlad, gan gynnwys Cymru, a'u dwyn ynghyd i'r Amgueddfa yn Hallein er mwyn adlewyrchu diwylliant, bywyd ac economi y Celtiaid yng Nghanolbarth Ewrop ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl. Peth braf i mi oedd gweld un neu ddau o greiriau'r Celtiaid a ddarganfuwyd yn nhir Cymru yn yr arddangosfa, megis gwrthrychau o aur ac efydd o Fôn, o Dal-y-Llyn ym Meirion a Phowys. Yno hefyd ar fenthyg, yr oedd y darian ryfel enwog o Battersea yn Llundain. Er mai Almaeneg oedd prif iaith yr arddangosfa, peth braf oedd gweld arwyddion yn y Gymraeg ar yr hysbysebion yn arwain i'r Amgueddfa a llu o luniau o Gymru - a hynny yn Awstria o bob man.

Yr ail atyniad eleni wrth gwrs oedd y Ddrama Basiant fawr yn adrodd dyddiau olaf Iesu Grist, a gynhelir ym mhentref Oberammergau ym Bavaria, De'r Almaen. Gŵyl ddramatig yw hon sydd bellach yn fyd-enwog ac yn gyrchfan i filoedd ar filoedd o bererinion ac ymwelwyr. Mae tarddiad y



Y Swper olaf o'r Pasiant ym mhentref Otingheim ar lannau'r Rhein.

Pasiant yng nghyfnod y Dadeni, ac ers y flwyddyn 1634 cynhaliwyd gŵyl ddramatig gan y pentrefwyr yn rheolaidd i ddiolch am waredigaeth oddi wrth y pla a 'sgubodd trwy rannau o Ewrop bryd hynny. Mae'r pasiantau modern yn cael eu cynnal bob deng mlynedd ar y ddegfed flwyddyn. Bydd rhaid i mi aros am y flwyddyn 1990 os am gael ei gweld, oherwydd methiant fu'r ymdrech eleni i gael tocynnau.

I liniaru tipyn ar fy siom, penderfynodd y cyfeillion a oedd wedi fy ngwahodd i'r Almaen fynd â mi i weld Pasiant arall, tebyg iawn i un Oberammergau, ond yn llai adnabyddus efallai, ym mhentref Öttingheim ger dinas Karlsruhe ar lannau'r Rhein. Ers y flwyddyn 1907, yn ddi-dor ar wahân i gyfnod y Rhyfel '39-'45, bu'r pentrefwyr yma hefyd yn cynnal pasiantau crefyddol ac Operâu enwog. Yn ôl yr hyn a ddarllenais amdanynt yn y papur bro lleol maent i gyd wedi bod yn achlysuron llwyddiannus dros ben.

Eisteddwn gyda'm cyfeillion mewn torf o bedair mil yn edrych ar basiant yn adrodd peth o hanes dyddiau olaf Crist; ei demtiad gan y diafol, ei weinidogaeth fer, ei fynediad gorfoleddus i Jeriwsalem ar Sul y Blodau a phrif ddigwyddiadau'r Wythnos Fawr - y cyfan yn arwain at uchafbwynt ei farwolaeth ar y

Groes. Yr oeddem ni y gynulleidfa dan do mewn theatr hanner cylch a'r actorion a'r côr - tua dau gant a hanner o drigolion y pentref ac un actor proffesiynol yn actio rhan yr Iesu ar lwyfannau awyr agored. Parhaodd y cyfan bedair awr ac er i mi golli Gŵyl Oberammergau, cefais fwyniant a phleser aruthrol yn gweld campwaith pentrefwyr Öttingheim. Edrychaf ymlaen yn awr i gael gwahoddiad eto i'r Almaen er mwyn profi mwy o fywyd a thraddodiad y wlad. 'Melys moes mwy.'

Tegid Roberts.

DRAENOG



Gwraig yn siopio yn yr ardal yn ddiweddar, ac yn talu am ei nwyddau â dau bapur pumpunt. Yn anffodus, 'roedd cost y nwyddau ychydig geiniogau dros ddecupunt. Wrth ymbalfalu yn ei phwrs am yr arian angenrheidiol, dywedodd y wraig: "Tydi pris bwyd yn ddrud y dyddia yma, deudwch:" Rhyw fwmian gytuno a wnaeth y siopwr, ond aeth y wraig ymlaen gan ychwanegu: "... ond dyna fo, ma'n rhaid ei gael o; wnaiff y gŵr ddim bwyta dim byd arall!"

Isod: Llun o Dref Hallein: yn y brynau'n y cefndir y gwnaethpwyd y darganfyddiadau.



LLIFOGYDD YN LLANRUG

ATEB SYRFEWR Y SIR

Mae'r Cynghorydd Pat Larsen wedi bod mewn cysylltiad â Syrfewr y Sir nifer o weithiau ynglŷn â'r llifogydd ar Lôn Groes, Llanrug, sef y lôn o'r Sefydliad Coffa i Ysgol Brynrefail. Mewn ateb i lythyr diweddaraf Mrs Larsen dywedodd Mr H.E. Davies, y syrfewr, ei fod yn disgwyl adroddiad gan staff ei Adran ar natur y broblem a chyflwr y ffordd, ynghyd â sylwadau ar unrhyw waith atgyweirio fydd yn angenrheidiol i ddatrys problem y llifogydd.

LLYTHYR DIOLCH MARI RHYTHALLT

Llys Alwen,
Llanrug

At olygydd Eco'r Wyddfa
Syr,

Dymunaf ddiolch i bawb o bell ac agos am lythyrau a chardiau i'm llongyfarch yn ddiweddar. Diolch arbennig i'r cymdrosion agos alwodd yn y tŷ a chael sgwrs.

Yn ddiffuant,
Mari Rhyddallt

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

* ANGHOFIWCW AM THATSHER,
Keith Best a Wyn Roberts -
MWYNHEWCH yr haf gyda...

**WYFODS
I'WYD**
DAFYDD PARRI

Cannoedd o jôcs i blant. 95c

CAPELI CYMRU

Crwydro capeli mwyaf diddorol Cymru gyda Penri Jones; yn llawn lluniau. £1.95

ENWAU I'R CYMRU
Heini Gruffudd MA.

Dros fil o enwau Cymraeg i blant, gydag ystyron manwl a lluniau. 95c

Gôl!

gan Gwyn Jenkins. Y llyfr mwyaf deniadol erioed ar bwl-droed yng Nghymru. £1.85

MABANT
24 o ganeuon gwerin mwyaf poblogaidd Cymru. £1.45



Rhifyn yr Haf - GWARTHUS GWARTHUS. 30c

DIGWYDDIADUR
1981

Y dyddiadur poced mwyaf defnyddiol, atyniadol erioed yn Gymraeg! 95c

Y Lolfa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
ffôn Talybont (097086) 304

BETHEL

DAWSWYR MORRIS – Cyn i'r ysgol gau am wyliau'r haf cynhaliwyd taith gerdded fechan gan enethod y Dawnsywyr Morris ac fe gasglwyd y swm o £130.72. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Yn ogystal â chymryd rhan yng Ngharnifal Bethel, bu'r dawnsywyr yng Ngharnifal Llandegfan ar 12 Gorffennaf. Ar 19 Gorffennaf yr oeddynt yn cymryd rhan yn yr orymdaith yng Nghaernarfon ac fe enillodd arweinydd y ddau drŵp, sef Lynn Roberts a Mari Owen, y wobrgyntaf fel arweinwyr.

I ddiweddu'r tymor fe wnaed te parti i'r genethod yn Ffestri'r Cysegr. Daeth Rovi, y swynwr enwog o Gaernarfon, yno i'w diddori. Hoffai'r Pwyllgor a mamau'r plant ddiolch i Rovi ac i Swyddogion Capel Cysegr am eu cydweithrediad ac i Mr Leslie Christinson, Tŷ Capel am ei wasanaeth parodi wneud y parti mor lwyddiannus. Cyn diwedd y parti cyflwynodd Rovi anrheg i Mrs Sheila Roberts, Tan y Buarth ar ran y Pwyllgor am ei gwaith hynod o galed yn gwneud y dillad i holl enethod y Dawnsywyr Morris.

Tynnwyd lluniau o'r Dawnsywyr gan Mr Islwyn Jones, Prifathro Ysgol Bethel, ac os oes unrhyw un eisiau copi o'r llun, cysylltwch â Mrs Nan Owen, Berwyn, Saron. Y pris yw 55c yr un.

Bydd y genethod yn aildddechrau ymarfer nos Fercher, 10 Medi am hanner awr wedi chwech yn y Neuadd. Mae croeso i unrhyw eneth o dan ddeg oed ymuno, ond mae'n RHAID iddynt fod wedi cael eu pump oed cyn 1 Medi, 1980.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Maldwyn Edwards, 16 Cremlyn ar enedigaeth merch ac i Mr a Mrs Nigel Hardwich, 10 Tan y Buarth ar enedigaeth merch, Siân.

MERCHED Y WAWR – Mae Merched y Wawr wedi trefnu i Antur Aelhaearn ddod i'r Neuadd i gynnal Sioe Ffasiynau nos Wener, Medi 26. Bydd croeso cynnes i bawb ddod i weld y dillad a wneir gan Antur Aelhaearn yn cael eu harddangos.

YR URDD – Cynhelir Pwyllgor yr Urdd yn y Neuadd nos Wener, Medi 12. Bydd croeso i unrhyw un a hoffai helpu gyda'r Urdd ddod i'r cyfarfod.

CYDYMDEIMLO – Dydd Gwener, Gorffennaf 25 bu farw Mrs Nell Myfanwy Williams, 1 Tan y Ffynnon. Mae ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Dydd Sul, Gorffennaf 13 bu farw Mrs Gwyneth Evans, Tyddyn Berth.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Lawrence Walley, 8 Bro Rhos am ennill y wobrgyntaf am y golomen orau yn y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd.

LLYWYDD Y GWYDDONWYR CYMRAEG – Etholwyd Yr Athro Emeritws W. Charles Evans yn Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol. Mae'r Athro yn adnabyddus i lawer yn y byd gwyddonol nid yn unig fel ymchwilydd disglair yn ei faes ond hefyd fel Cymro sy'n ymwybodol o'i wreiddiau a'i iaith.

Fe'i ganwyd ym Mhenrhos ym 1911 a bu'n ddisgybl yn yr hen Ysgol Ramadeg yng Nghaernarfon cyn mynd ymlaen i astudio Cemeg yng Ngholeg y Gogledd ym Mangor.



Genethod y Dawnsywyr Morris ar ôl eu taith gerdded. Nid ydynt yn edrych

yn rhy flinedig!

PRIODI – Dydd Sadwrn, 25 Mehefin yng Nghapel Coch, Llanberis priodwyd Dylan, mab Mr a Mrs David C Williams, 9 Bro Rhos a Mona J. Lewis, merch Mr a Mrs O.H. Lewis, Cilan, 68 Stryd Fawr, Llanberis. Gweinyddwyd gan y Parch. Marcus Robinson a'r organydd oedd Mr Hugh Peris Pritchard. Y morynion oedd Miss Eirion Lewis, Miss Catrin Lloyd a Sarah J. Green, gyda Gareth Jones yn was bach. Mr Emyr Roberts oedd y gwas priodas. Bydd Dylan a Mona yn cartrefu yn 6 Victoria Terrace, Llanberis.

DIOLCH – Dymuna Dylan a Mona ddiolch i'w perthnasau a chyfeillion a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd. Diolch yn fawr.

CROESO ADREF – Croeso adref i Mr Alfred Jones, 2 Corra Linn sydd yn ymweld â'i gartref ar wyliau o Awstralia.

PEN-BLWYDD – Pen-blwydd hapus i Mrs Katie Williams, Trigfa, Erw Bian, sydd yn 91 oed ar Awst 30.

DEUNAW OED – Llongyfarchiadau i bobl ieuanc y pentref a fu'n dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod yr haf: Roger W. Jones, 22 Cremlyn ar 8 Gorffennaf, Carol A. Price, Llys Gwynt, Seion ar 15 Gorffennaf, Andrew Evans, 28 Bro Rhos ar 30 Gorffennaf a Christine Pritchard, 30 Bro Rhos ar 7 Awst.

LLONGYFARCHIADAU i Mary a Hugh Jones, 14 Cremlyn ar dathlu eu priodas ruddem (40 mlynedd) ar 6 Gorffennaf.



GWYNEDD YN ATEB BEIRNIADAETH

RHEILFFORDD LLYN PADARN

Mae Ysgrifennydd a Chadeirydd Rheilffordd Llyn Padarn Cyf. wedi cyhuddo'r Cyngor Sir o rwystro twristiaeth a chyfrannu at ddirywiad y rheilffordd. Mae'r cyngor Sir yn gwrthod yr honiadau'n llwyr ac mae am ddatgan yn ddiamwys nad yw annog ymwelwyr i beidio â dod i Wynedd yn bolisi gan y Cyngor Sir, y Swyddog Cynllunio na'r Adran Gynllunio.

Ym Mharc Gwledig Padarn lle y ceir Rheilffordd y Llyn, ceir Amgueddfa Chwarel, Ysbyty Chwarel, Canolfan Ymwelwyr, Chwarel Vivian, Gwarchodfa Natur, llwybrau coedlannau a llwybrau natur. Fe'i sefydlwyd yn bennaf ar gyfer ymwelwyr. Fel yr agorwyd rhagor o atyniadau yn y Parc Gwledig, dywedodd ymwelwyr fod y rhain yn eu bodloni'n fawr. Sefydlwyd y Parc gyda chymorth grantiau gan y Comisiwn Cefn Gwlad er mwyn lliniaru'r pwysau ar Barc Cenedlaethol Eryri gerllaw.

Mae'r Cyngor yn helpu diwydiant twristiaid y sir mewn nifer o ffyrdd eraill: ar hyn o bryd £1½ miliwn o arian cyhoeddus yn cael ei sianelu i Gynlluniau Gorsaf Ganolog a Gwella Ymddangosiad Blaenau Ffestiniog, a gychwynnwyd gan y Cyngor. Mae llawer o waith Adran Parc Cenedlaethol y Sir o fudd i dwristiaeth mewn amryw ffyrdd eraill, a gymerir yn ganiataol yn aml. Mae'r awdurdod yn gwneud popeth a all o fewn ei adnoddau i harddu'r nodweddion hynny sy'n denu'r ymwelwyr i'r Sir ac yn sicrhau y dychwelant – y golygfeydd, y

cefn gwlad a'r arfordir.

Y mae datganiad y Cwmni Rheilffyrdd ar y cyhoedduswydd a roddodd y Cyngor i Barc Padarn wedi bod yn gamarweiniol iawn. Eleni a llynedd, y mae'r Cyngor Sir wedi cynhyrchu 50,000 o daflenni hysbysrwydd a 500 o bosteri ar ran y Rheilffordd a'r holl atyniadau eraill yn y Parc. Y mae'r Cwmni Rheilffordd wedi cael rhyddid i ddosbarthu'r deunydd hysbysebu yma.

Mae'r Cyngor Sir wedi ystyried y manylion am y teithwyr a ddarparwyd gan Rheilffyrdd Llyn Padarn Cyf. ond nid yw'n fodlon bod ein taliadau am barcio wedi cael unrhyw effaith ar nifer y teithwyr a gludwyd ar y rheilffordd.

Fel mater o ffaith, er bod y cwmni'n hawlio bod lleihad o 31 y cant yn nifer y teithwyr a gludwyd hyd 13 Gorffennaf o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd, ni bu ond lleihad o 18 y cant yn nifer y moduron a ddefnyddiodd Faes Parcior Gilfach Ddu tros yr un cyfnod.

Tuag at drefnu'r Parc, ceir incwm gwerthfawr oddi wrth y taliadau parcio. Ond y mae'r Sir yn ymwybodol o'r ffaith na ddaeth cymaint ag arfer o ymwelwyr i'r ardal eleni, ac er mwyn gwella'r sefyllfa gyffredinol, penderfynwyd caniatáu i fysis pleser parcio am ddim unwaith eto, a gostwng y tâl am barcio car i 25c tan ddiwedd y tymor hwn. Daeth hyn yn bosibl yn rhannol oherwydd gostyngiad yn y costau a ragdybiwyd.

CYMDEITHAS DIOGELU HEN BEIRIANNAU AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU

DIWRNOD DYRNU



CAEAU PLAS Y DREF LLANRWST
Dydd Sadwrn. Medi 20fed am 1 o'r gloch

CREFFTAU GWLEDIG
HEN DRACTOR
INJANS OEL

CYSTADLAETHAU ac ARDDANGOSFEYDD
Mynediad: 75c. Plant 25c.
Parcio di-dâl

DEINIOLLEN

Y BADAU ACHUB – Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Dydd Baneri at y Badau Achub. Cyfanswm Deiniolen, Dinorwig a'r Fachwen oedd £47.15. Mrs C. Davies (Y Llythyrdy), £2.01; Mrs E. Hughes £3.52; Mrs Phyllis Jones a Mrs N. Price £5.82. Miss Wendy Jones a Miss Anwen Jones £4.45, Mr R.E. Williams (Dinorwig a'r Fachwen) £13.75. Miss Julie Thomas a Miss Marina Marcellos £8.30, Mrs C. Price £9.30.

Roedd hyn yn cynorthwyo i wneud cyfanswm cylch Caernarfon yn £1,007.58. Y trefnydd lleol oedd Mrs C. Price. Diolch i bawb am eu hymdrech!

EINDORF – Prysor iawn fu hanes y Seindorf trwy'r haf. Buont mewn amryw o garnifalau, ac ar y prom yn Llandudno ar nos Sadyrnau. Nos Sadwrn diwethaf fu'r tro olaf y tymor yma iddynt chwarae yn Llandudno. Ar y 6ed o Fedi byddant yn cynnal taith ddigrl. Enillwyr clwb 200 am fis Awst oedd; 1. Mrs Meira Jones, Pentre Helen, 2. Mr Bobbie Williams, Arfon House, 3. Mr David Edwards, Mynydd Llandegai. Ar ôl cystadlu mewn cystadleuaeth yn Whitchurch ar Fedi 13 byddant yn mynd yn eu blaenau i St. Martins i gadw cyngerdd.

NOSON GOFFI – Nos Wener, Medi 5 am 7 o'r gloch cynhelir Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi. Bydd byrddau gwerthu a thombola. Yr elw tuag at Gronfa Feddygol Deiniolen a'r Cylch. Croeso cynnes i bawb.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLLEN – Mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ddiweddar, penderfynwyd ein bod yn cynnal Dydd o Dderbyn Rhoddion gan yr Ardalwyr tuag at y newyn difrifol sydd yn Nwyrain Affrica. Bydd aelodau'r cyngor yn derbyn rhoddion yn Festri Capel Ebenezer ddydd Gwener Medi 5 1980 rhwng 2 a 4, a 6 a 8. Diolchwn ymlaen llaw am eich haelioni.

Mae rhaglen ar gyfer tymor y gaef wedi cael ei pharatoi a chynhelir y cyfarfodydd yr ail nos Lun o'r mis ar ôl mis Hydref.

DIOLCH – Dymuna Susan Owen, Brenhines Carnifal Deiniolen ddatgan ei diolch i bawb am y rhoddion hael a dderbyniodd. Diolch hefyd i aelodau'r pwyllgor carnifal am bob cymorth a charedigrwydd.

Dymuna Rhian Wyn, 14 Tai Marian a John Gwyn, Eirianfa Llanberis ddiolch yn fawr i drigolion Bro'r Eco am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddiad.



Enillwyr y gystadleuaeth i gwpl o dan 16 oed sef Jennie Williams, 39 Rhydfadog a Dylan Williams 20 Pentre Helen. Wedi eu gwisgo fel Brenin a Brenhines Perlau.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD – Nos lau, Gorffennaf 3 cafwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd. Dechreuwyd gan Mrs Ellen Jones, Caradog Place. Dymunwyd adferiad buan i rai oedd yn wael, a

chyddymdeimlwyd â Mrs Peri Evans wedi colli ei brawd. Trefnodd Mrs Miriam Lewis gwis. Trechwyd Tim A gan Dîm B o 5 pwynt. Diolchwyd am y te i Mrs Eileen Williams a Mrs Dilys Williams. Bydd y te nesaf Medi 4 pryd y dechreuir gan Mrs Dilys Pritchard, Deiniol Road. Rhof y te gan Mrs Ellen Jones a Mrs Myfanwy Hughes, Caradog Place.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Dymuna pwyllgor lleol adran Deiniolen a'r cylch ddatgan diolch i bawb fu'n cefnogi'r Daith Gerdded Encil Distaw, gynhaliwyd ar Fehefin 14 dan nawdd y Gymdeithas. Bydd darllenwyr yr Eco yn falch o wybod fod cyfanswm yr elw wnaed yn £498.72, ac fe welir ar dudalennau'r rhifyn hwn ddarluniau o'r cerddwyr a'r rhai fu'n encilio yn y gwahanol bentrefi.

WYTHNOS Y CARNIFAL – Yn ôl yr arfer cynhaliwyd gweithgareddau'r carnifal yn ystod yr wythnos lawn gyntaf yng Nghorffennaf. Ar y nos Sul cynhaliwyd Cyngerdd Cysegredig yng nghapel Ebeneser pryd y cafwyd eitemau gan ddoniau'r ardal, Ffiolau'r Grug, Einir Wyn Williams, Yvonne ac Einir, Andrew Brailsford, Alwenna Morris, Kathy Williams, Sefydliad y Merched, Parti Mrs Gwladys Evans ynghyd â Seindorf Arian Deinillen.

Nos Lun chwaraewyd rowndiau terfynol cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr. Ymgeisiodd 20 o dimau yn cyrychioli'r gwahanol strydoedd, pob tîm yn cynnwys un ferch a phedwar gŵr. Yn y rownd derfynol trechodd Hafod Olau dîm Pentre Helen 7 gôl i 2.

Nos Fawrth cynhaliwyd disco yn iard yr Ysgol Feithrin.

Nos Fercher oedd noson y Cyngerdd yng nghapel Cefnywaun gyda Mr W.J. Eames fel arweinydd. Rhoddwyd cyfraniad gan blant yr ysgol leol ac yna gwelwyd y Frenhines Rhian yn cyflawni ei gorchwyl olaf fel brenhines. Wedi canu'r corn gan Eifion Hughes ymddangosodd Miss Susan Owen â'i gosgordd. Yna coronodd y Frenhines Rhian, Susan yn Frenhines 1980. Canwyd y gân o groeso i'r Frenhines Susan gan Siân Gibson, y geiriau wedi eu cyfansoddi gan Mr John Evans. Llywydd y Noson oedd Mrs Eirwen Thomas, un o blant yr ardal.

Nos lau cynhaliwyd y chwaraeon, a dyma'r canlyniadau:
Bechgyn – dan 4: 1. Euros, 2. Mathew, 3. Martin. dan 6: 1. Kevin, 2. Neil, 3. Arwel. dan 8: 1. Terry, 2. Chris, 3. Howard. dan 10: 1. Gary, 2. Tegid, 3. Dylan a Patrick. dan 12: 1. David, 2. Haydn, 3. Christopher. dan 16: 1. Stephen, 2. Bryn, 3. Malcolm. dros 16: 1. David, 2. Stephen, 3. Eifion.

Genethod – dan 4: 1. Haley, 2. Louise. dan 6: 1. Julie, 2. Sarah, 3. Karen. dan 8: 1. Tracey, Donna, 3. Dion. dan 10: 1. Sharon, 2. Jennifer, 3. Ruth. dan 12: 1. Rhian, 2. Yvonne, 3. Helen. dan 16: 1. Wendy, 2. Delyth, 3. Yvette. dros 16: 1. Karen, 2. Linda, 3. Babs. Ras Berfa – dan 16: 1. Stephen a Dewi, 2. Malcolm a David, 3. Haydn a Gareth. dros 16: 1. David ac Eifion, 2. Denise a Sylvia, 3. Margaret a Linda. Ras Drithroed – dan 16: 1. Dewi a Stephen, 2. Eifion a Bryn, 3. Malcolm a David. Genethod – 1. Rhian a Wendy, 2. Llywela ac Yvonne, 3. Denise a Linda. Dros 16 (bechgyn) – 1. Bryn ac Eifion, 2. Eifion a David, 3. Haydn a Williams. Genethod – 1. Carolyn a Karen, 2. Linda a Denise, 3. Linda a Margaret. Ras gwisg ffansi – 1. Olwenna, 2. Gloria, Yvonne a Hilda. Ras trawsgwlad – dan 16 (bechgyn) – 1. Eifion, 2. Malcolm, 3. Peter. (genethod) – 1. Delyth, 2. Yvette. dros 16 – (bechgyn) – 1. Gareth, 2. Haydn. Tynnu rhaff – bechgyn – Bull, 2.

YR ENCIL DISTAW



Rhai o'r cyfeillion o fro'r Eco a gefnogodd yr Encil Distaw a drefnwyd gan bwyllgor lleol adran Deiniolen a'r cylch o Gymdeithas y Beiblau.

Wellington 1. Merched – Bull 1 Wellington 2.

Nos Wener – Cafwyd noson o Hud gyda Terry Jones o Gaergybi yn yr ysgol ac yn nhafarn y Tarw cynhalwyd Rownd Derfynol Pencampwriaeth Dartiau Deiniolen. Cyflwynwyd Cwpan i'r buddugol, Ieuan Morris a medal i Trefor Roberts gan Mrs C. Roberts.

Dydd Sadwrn cyrhaeddodd y gweithgareddau eu huchafbwynt gyda'r Carnifal. Arweiniwyd yr orymdaith gan Seindorf Deiniolen ac yn dilyn yr oedd Dawnsuwr Llaingoch, 'Tinies' o Gaernarfon. Brenhines Susan gyda 11 brenhines o ardaloedd eraill. Agorwyd y Carnifal gan Arfon Haines Davies, HTV, ac ymunodd ef a Mr a Mrs Heddwyn Evans, Miss Meirwen Hughes a Sister M. Marreble fel beirniaid.

Canlyniadau – Cwpan i'r Frenhines Orau – Brenhines Vicky, Llaingoch. Modur Gorau – Brenhines Elin, Garndolbenmaen. Gwisg ffansi – Dan 3: 1. Darren, 2. Lindsey, 3. Claire ac Aeron. Dan 5: 1. Gavin, 2. Derwyn, 3. Cemlyn a Mark. Dan 8: 1. Dylan Wyn, 2. Amelia, 3. Kevin. Dan 11: 1. Mark, 2. Jenny, 3. Nia. Dan 14: 1. Anthony, 2. Ian, 3. Betha a Dilwen. Dan 16: 1. Tracey. Dros 16: 1. Maureen, 2. Katie a Gaynor, 3. Hilda, Gwynedd a Hywel. Cwpl Gorau: Dan 10: 1. Dylan a Jennie, 2. Beverley a Karen. Dan 16: 1. Anwen a Wendy, 2. Carol a Sian, 3. Ellen a Sharon. Dros 16: 1. Eirwen a Jennie, 2. John Meredith a Mul, 3. Lorna a Margaret. Hysbys Gorau: Dan 5: 1. Euros, 2. Eilir, 3. Sion a Bryn. Dan 8: 1. Jean, 2. Gwawr, 3. Linda. Dan 11: 1. Paul, 2. Della. Dan 14: 1. Gwenlli a Rhian, 2. Delyth a Dewi. Grŵp Gorau: 1. 'Who Shot J.R.? Beic wedi ei addurno: 1. Mared, 2. Ceri, 3. Dylan a Wendy. Pram wedi ei haddurno: 1. Nicola, 2. Caron. Rhiant a phlentyn tebyg: 1. Beryl a David, 2. Dilys a Cheryl, 3. Braemar, Nicola a Lindsey. Coginio: Spwng Fictoria: 1. Ann. Bara Brith: 1. Merch yr Wyddfa. 6 Scon: 1. Ann.

Rafflau bach: Teisen, Mrs Price, 8 Porth Gogledd; Miss Piggy, Andrea; pwysau'r gacen: Mrs Carys Hamer.

PRIF RAFFL: 1. Keith Bingham, 2. Mrs Osborne, 3. J.O. Jones, 7025, Wellington Pool; 4. Vera Lynn Parry; 5. Eifion Hughes, 21 Isgraig Llangefni; 6. 21 Dolafon, Cwm-y-glo; 7. J.G. Parry, Llanfairpwll; 8. W.D. Jones, 23 Llys Arthur, Bangor; 9. Mair, 14 Tai Marian; 10. Beverley Thomas.

Dymuna Bwyllgor y Carnifal ynghyd â'r is-bwyllgor ddiolch i Mr J. James am nwyddau, i Mr a Mrs Hughes, Siop Bapur am roddion tuag at y raffl ac eraill am roddion niferus. Diolch hefyd i Swyddogion eglwys Ebeneser a Chefnywaun am gael defnyddio'r capeli yn ystod yr wythnos. Ac yn olaf dillch i bawb fu'n gweithio'n galed a diwyd yn ystod y misoedd diwethaf tuag at wneud y Carnifal yn llwyddiant.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Samuel Williams, 88 Pentre Helen ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd gan bawb ar eu priodas arian, ac yn arbennig i Mrs Clarys Roberts, y Bull, Deiniolen.

LLONGYFARCHIADAU – i Eifion Wyn Hughes, 1 Pentre Helen ar ei lwyddiant yn yr Arholiad Lefel 'A' mewn Economeg.

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

**LONDON HOUSE
LLANRUG**


**Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI**

**Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus**

**Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist**

**MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!**

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

**Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981**

DEFOD Y CORONI: CARNIFAL MAWREDDOG LLANRUG



Mici Plwm yn arwain yr orymdaith yng ngharnifal Llanberis

NOSON FAWR Y GLYNTWROG



Mr Arthur Rowlands o Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru, a Mr Peter Cordon, perchennog y Glyntwrog wedi'r agoriad swyddogol.

DYMCHWEL COLOFN O GEINIOGAU GWERTH DROS £150



William Griffith gynt o Bentre Helen (tad Mr Gwilym Griffith sy'n byw yno'n awr) yn rhagflaenu un o Garnifalau'r gorffennol yn Neiniolen. Llun trwy garedigrwydd Mrs Joan Fraser Jones, Fferm Glandinorwic.



Nos Fawrth, Gorffennaf 1, agorwyd y Glyntwrog ar ei newydd wedd.

Gwahoddwyd Hogia'r Wyddfa i arwain y noson a daeth degau o'r selogion a nifer o bobl o'r tu allan i'r ardal ynghyd i ddathlu'r achlysur. Diolchodd y perchenogion, Peter a Muriel, i'r Hogia ac i'r cwsmeriaid hynny a fu mor driw iddynt yn ystod y misoedd anodd hynny pan oedd yr holl newidiadau adeiladol yn digwydd. Yn ystod y misoedd hyn bu'r cwsmeriaid yn ddyfal yn casglu ar gyfer Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru drwy adeiladu colofn o geiniogau a darnau dwy geiniog ar y bar.

Yn bresennol yn noson y dathlu 'roedd Mr Arthur Rowlands a Mr Alan Newell o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion.

Dyma lun Mr Arthur Rowlands yn dymchwel y golofn geiniogau. Casglwyd ymhell dros £150.

Llun trwy garedigrwydd Mrs E. Jones, Bod Lfor, Llanrug. Mae'n debyg i'r llun gael ei dynnu'n y cae wrth dalcen y Rheithordy tua 40-50 mlynedd yn ôl. Mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.



Merched Ysgol Fonedd (?) St Trinians yng Ngharnifal Llanberis



Meinir Roberts o Lanberis yn mwynhau'r hwyl yng ngharnifal Nant Peris



Rhai o'r cymeriadau lliwgar yng ngharnifal Llanberis.



Llun o drwmpedwyr Seindorf Deiniolen sef Hefin G. Jones a leuan Morris yn derbyn lolipop gan leuan Williams am ganu'r corn gwlad yng Ngharnifal Bethel ar gyfer coroni'r Frenhines. Daliwch ati hogia, efallai y cyrhaeddwch y Genedlaethol cyn bo hir!

LLANBERIS

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Stott, Garth Maelog ddiolch i bwyllgor carnifal Llanberis, hefyd i'w ffrindiau a'r ardal oll am yr anrhegion a dderbyniodd Kerry ar yr achlysur o fod yn weinyddes i'r frenhines Iona yn y carnifal.

BROWNIES – Nos Wener diwethaf derbyniodd pum aelod o'r adran uchod sef Einir Thomas, Mandy Roberts, Fiona Pryddech, Jacqueline Sellars a Nia Owen fathodyn am lwyddo mewn arholiad Cymorth Cyntaf. Yr arholwr oedd Nyrs Glenys Parry, Llanberis.

LLWYDDIANT CERDDOROL – Llongyfarchiadau i Rhiannon Pritchard, Madryn am ennill y wobr gyntaf ar Gystadlaeth Unawd Piano dan 15 oed yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst yn ddiweddar. Hefyd bu Rhiannon yn llwyddiannus yn ei harholiad piano Gradd 5. Fe lwyddodd gyda theilyngdod.



DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs J.K. Sellars, 16 Ffordd Goodman ddiolch i bwyllgor carnifal Llanberis. hefyd ffrindiau a'r ardal oll am yr anrhegion a dderbyniodd Jacqueline ar yr achlysur o fod yn weinyddes i'r frenhines Iona yn y carnifal. Diolch yn fawr.

DIOLCH – Dymuna'r frenhines Iona a'i gweinyddesau Kerry a Jacqueline ddiolch i Rosalind am gael arddangos eu gwisgoedd a'r anrhegion yn ffenestr y siop. Hefyd i bwyllgor carnifal Nant Peris am y gwahoddiad i'w carnifal lle y cawsant noson ddifur iawn.

PEN-BLWYDD HAPUS – i Nain, Mrs Margaret Thomas, 75 Maes Padarn, ar ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed, ar Awst 23, oddi wrth Wil, Jean, y plant a'r wyrion oll.

PLAS PENGWAITH – Nos Wener, Medi 26 cynhelir Noson Goffi ac amryw stondinau. Ceisir codi arian er mwyn gwneud Nadolig yr hen bobl yn hapus ac yn esmwyth.

PRIODASAU – Bu amryw o briodasau yn y pentref yn ddiweddar, a dymunir hir oes a pherffaith hapusrwydd i'r cyplau ifanc: Susan Mary Jones, 2 Maes Padarn a Gwynedd Morris, Stryd Newton, Cwm-y-glo; Mona Lewis, Cilan a Dylan Williams, Bethel; Valerie Ann Parry, Maes Padarn a Iolo Gwyn Griffith, Tan-y-bwlch, Dinorwig; Gwawr Parry, Stryd Newton a Carl Wagner, Brynrefail; Ronnie Roberts, Bryn Hyfryd a Karen Owen, Rhes Afon; Merfyn Allsup, Ceunant a Julie Jones, Llandudno.



Gwawr Parry a Carl Wager y tu allan i Westy Bron Eryri ar ôl eu gwledd briodas. Hon oedd y wledd briodas gyntaf i'w chynnal yn y gwesty a rhoddwyd cwpanau a llwyau caru iddynt yn rhodd gan berchnogion y gwesty.

DARLLEDU – Darlledwyd 'Oedfa Bore Sul' o Gapel yr Annibynwyr Nant Padarn yn ystod Gorffennaf. Pregethwyd gan yr Athro Stanley John, BA., BD., Bangor, gyda Mr Aled Owen wrth yr organ.

LLWYDDIANT – Llongyfarchwn Stephen Clarke ar ei lwyddiant yn arholiadau nyrsio S.R.N.

YN GWELLA – Deallwn fod Mr Jac Davies, Rhes Fictoria; Mr William Jones, Rhes Fictoria; Mr Evan Owen; Mrs Rebecca Jones, Pentre Castell a Mrs Blodwen Evans, Caledfryn yn yr ysbty, – brysiwch wella.

Da oedd clywed fod Mrs Maud Jones, Stryd y Dŵr a Mr Stanley Owen wedi dychwelyd adref o'r ysbty.

MARW – Mr Trefor Williams – brawychwyd yr ardal gyda marwolaeth sydyn y Cyng. Trefor Wyn Williams – yn ŵr ifanc 57 oed.

'Roedd yn llawn brwdfrydedd i wasanaethu'r ardalwyr ymhob achos, ac 'roedd yn aelod byw iawn o bob pwyllgor. Colled i'r cyhoedd yw ei golli. Cydymdeimlir â'r teulu oll.

Mr Evan R. Williams – Yn yr ysbty ym Mangor bu farw Evie Rogers Williams yn 66 oed. Cymeriad hoffus a phoblogaidd iawn, yn fawr ei barch gan bawb. Bu'n gweithio yn y chwarel am flynyddoedd a cholodd ei iechyd, a gorfu iddo fod gartref am amser maith. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Padarn. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu oll.

Miss Gwyneth Jones – Yn Ysbty Môn ac Arfon Bangor bu farw Miss Gwyneth Peris Jones, Ardwyn yn 74 oed. Sefydlodd hi a'i chwaer, Miss A.M. Jones y mudiad lleol i'r anabl a bu'n weithgar iawn gyda'r mudiad. Cydymdeimlwn â'i chwaer yn ei cholled.

Mrs C.J. Morris – Yng nghartref ei merch yn Rhosgadfan bu farw Mrs Morris, Craig y Don ar ôl gwaedd hir a blin. Dioddefodd yn ddirwgnach a thawel, ac 'roedd mor ddiolchgar am bob cynhorthwy. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phlant yn eu profedigaeth.

Mr MkKeen – Yn yr ysbty bu farw Mr MkKeen, Maes Derlwyn gan adael gwedd a dwy ferch. Cymeriad addfwyn a charedig, yn barod ei gymwynas i bawb bob amser. Daeth llw mawr o'i gyfeillion i'w hebrwng ar ei daith olaf. Estynnwn gydymdeimlad dwys i'r teulu yn eu colled.



Mona Lewis a Dylan Williams ar ôl eu priodas. Dymuna Dylan a Mona ddiolch yn fawr i'w teulu a ffrindiau oll am anrhegion a gafwyd ar achlysur eu priodas.

GRADDIO – Mae amryw o'r ardal wedi ennill gradd mewn gwahanol golegau, a llongyfarchwn hwy yn eu llwyddiant. Gwenda Davies, Stryd yr Wyddfa, (Gradd B.Sc.); Ernie Graham, 42 Dôl Elidir, (Gradd B.A.); Aled Jones, Stryd Newton (Gradd B.Sc.); Tony Pepper, Stryd Newton (Gradd B.Sc.); Tony Owen, Afon Terrace (B.A. Anrhydedd – mae'n mynd ymlaen i wneud Ph.D.).

LLWYDDIANT – fu hanes Rhian Owen, Stryd Siarlott yn Eisteddfod Llangollen, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Lliw. Daeth yn ail ar ganu ar lwyfan y ddwy eisteddfod yma. Llongyfarchiadau iti Rhian, dalia ati!

CANLYNIADAU CARNIFAL LLANBERIS

Gyrfa Chwist: Nos Lun. Gorffennaf 14. Merched. 1. Mrs Dwynwen Roberts, 2. Mrs Hughes, Cwm-y-glo, 3. Mrs N. Williams, 4. Mrs Enid Roberts. Dynion. 1. Mr Jones, Biwmares, 2. Mr Selwyn Griffiths, Penisarwaun, 3. Mrs Gartside, 4. Mrs Hughes, Felinheli. Sgôr Uchaf. Merched. Mrs Dwynwen Roberts. Dynion. Mrs Gartside. Booby. Merched. Angela Jones. Dynion. Graham Gartside. Knockout. Mrs Joan Hughes, Mrs Enid Price, Cwm. Raffl. 1. Mrs Hughes, Bethel, 2. Mrs Parry, Felinheli, 3. Mr Griffiths, Penisarwaun, 4. Miss L. Morgan, Bethel.

Dartiau. Nos Fercher. Dynion. Cwpan Mr Elfed Williams. 1. Michael Griffiths. 2. Tony Sage. Tlws Gorau o'r Pentref. Michael Griffiths. Tlws Rhif Uchaf. Michael Griffiths. Merched Tlws Enillwyr. Carol Sage. Rhif Uchaf. Carol Sage. Raffl. 1. Gwawr Owen, Stryd Newton; 2. Mr J. Roberts, Padarn Lake; 3. Mr Ellis Jones, Padarn Lake; 4. Mrs Jean Roberts, Stryd Goodman.

Gemau Giamocs. 1. Llanberis (Tlws Eco'r Wyddfa); 2. Deiniolen; 3. Penisarwaun; 4. Cwm-y-glo.

Gornest Pŵl. Dolbadarn 'A', 17 pwynt. Castle, 14, Prince of Wales, 10, Bryn Awelon, 8, Padarn Lake, 6, Dolbadarn 'B', 5. Dolbadarn 'A' a'r Castle oedd yn chwarae yn y gêm derfynol, am darian Ashcroft a Jones. Dolbadarn a orfu o 5 gêm i 4. Enillydd Tlws Unigolion gorau, Mr Jim Jones, Dolbadarn 'A'.

Nos Wener. Bingo. Lines, Mrs Rona Thomas, Mrs Enys Parry, Mrs Margaret Parry, Mrs Ann Jones, Mrs Menai Jones, Mrs Ann Jones, Mrs Catherine Williams. House. Mrs Ann Jones, Mrs Nellie Morris, Mrs Mair Roberts, Susan Evans, Delyth Hughes, Susan Evans. Winner Takes All. Mrs Gwen Jones, Mrs Liz Jones, Mrs Iona Jones, Mrs Iola Sellars, Miss G. Parry.

Y Raffl Fawr. £50-John Griffiths, Caernarfon; £30-M. Hughes, Llanberis; £20-G. Barlow, Tregarth; Cinio i 2-N. Pierce, Betws-y-coed; Hamper-2, Maes Padarn; Chwisgi-B. Jackson, Llanberis; Gin-G. Williams, Glaslyn; Gwin-E. Humphreys, Caernarfon; Sieri-A. Evans,



Y Frenhines Iona a'i Llys – Kerry a Jacqueline.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

CWM-Y-GLO

TRIP UNDEB Y MAMAU – Aeth nifer dda o aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion ar daith ddirgel y Gangen yn ddiweddar. Yr oedd y daith wedi ei threfnu gan y Rheithor ac ef hefyd oedd yn egluro pethau o ddiddordeb ar y daith. Gyrrwyd cerdyn wedi ei arwyddo gan bawb oedd ar y bws i Mrs Owen, Isfryn, y trysorydd oedd wedi derbyn llawfeddyginiaeth mewn ysbyty ym Mangor. Diolch i bawb a fu yn helpu i drefnu ynglŷn â'r trip.

TRIP YR YSGOL SUL – Aeth plant Ysgol Sul Sant Gabriel, eu rhieni, a'u cyfeillion am drip i'r Rhyll yn ystod mis Gorffennaf a bu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn. Y mae ein diolch i bawb a fu yn helpu i wneud y trip yn llwyddiant eleni eto.

GWAELEDD – Drwg oedd clywed am waeledd Mrs C. Owen, Isfryn a Mr. J.E. Watkins, Dolwen. Bu'r ddau am gyfnod yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor a da yw deall eu bod gartref eto a'u bod yn gwella'n foddhaol.

LLONGYFARCHIADAU i Gwilym a Mair Williams sydd newydd ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol yn y Ddôl Bach. Hwyl iddynt ar y deng mlynedd ar hugain nesaf.

GWIBDAITH PENSIYNWYR – Cynhaliodd aelodau y gangen Arwerthiant a Noson Goffi yn y Ganolfan Gymdeithasol, ac fel arfer, bu'r ymdrech yn llwyddiant mawr. Gyda'r elw a wnaethpwyd fe drefnwyd gwibdaith i bensiynwyr y pentref eleni eto. Cafwyd diwrnod braf iawn yn Llandudno a Betws-y-coed. Barn pawb oedd iddynt fwynhau eu hunain yn ardderchog.

TRIP DIRGEL – Mrs Watkins, Dolwen, Miss E. Hughes, Tan y Graig, a Mrs I. Jones, Min y Nant oedd yn gyfrifol eleni am drefnu trip dirgel Merched y Wawr. Edrychwn ymlaen fel cangen at y trip hwn bob blwyddyn ac ni siomwyd ni eleni. Tros Bont Menai yr aethom eleni gan alw i edmygu Amgueddfa Ieuencid Porthaethwy.

Cawsom fonws annisgwyl yno hefyd – yr oedd yn ddiwrnod carnifal. Yna ymlaen â ni i Fiwmares i de, ac ymweld â'r hen garchar. Beth tybed fuasai drwgweithredwyr modern yn ei feddwl o'r fath le digysur?

Ein cyrchfan nesaf oedd hen eglwys Llanallgo. Yno cafwyd hanes byw iawn am longddrylliad y 'Royal Charter' gan ein llywyddes Miss Mat Pritchard. Talodd sylw arbennig i'r person, y Parchedig Stephen Roose Hughes, a weithiodd mor ddiflino ym 1859 i gysuro perthnasau y trueiniaid a foddwyd yn y drychineb. We ymweld â'r gofologofn a'r beddau yn y fynwent gyfagos, aethom yn ein blaenau am eglwys hynafol Llaneilian a adeiladwyd yn ôl traddodiad yn y 15 ganrif gan y Tywysog Caswallon Llaw Hir fel teyrnged i Sant Eilian am adfer ei olwg.

Cawsom ginio yn y Star Motel cyn troi am adref. Diolch yn fawr i drefnwyr y trip am ddarparu mor drwyadl ar ein cyfer.

YN YR YSBYTY – Bu llawer o drigolion y pentref yn yr ysbyty am driniaeth yn ddiweddar ac yr ydym yn dymuno adferiad llwyr a buan iddynt oll. Yn eu plith yr oedd Mrs Owen, Isfryn. Y ddwy chwaer Miss Hannah Jane a Miss Nellie Williams, Min Afon. Mr J. Jones, 21 Dol Afon. (Nid oes ychwaneg o enwau wedi dod i law.)

Y CARNIFAL – Fe fu gweithgareddau'r Carnifal yn ystod y mis diwethaf. Bu'r hanes a'r canlyniadau eisoes yn y wasg wythnosol; nid oes angen eu hailadrodd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n gwasanaethu neu gymryd rhan mewn unrhyw fodd, ac fe fydd mantolen ariannol yn ymddangos yn y dyfodol agos.

CROESO – i'r ardal i Mr a Mrs Wager (Ashley a Carolyn) sydd wedi symud i fyw i Hafoty. Pob llwyddiant iddynt yn eu cartref newydd.

NANT PERIS

BEDYDD – Dydd Sul, Mehefin 29 yng Nghapel Rehoboth bedyddiwyd Llio Mair, merch fach Mr a Mrs W. Jones, Tŷ Croes, Ynys Môn a wyres Mr a Mrs Gwilym Searell Jones, Gwynant.

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Siân, Llys Awel ar lwyddo yn ei harholiad piano Gradd 1, arholiad 'Theory' gradd 2; hefyd i Bleddyn Roberts, mab T.J. Roberts a'r ddiweddar J.E. Roberts ar ei lwyddiant yn ennill gradd B.Phil.

PROFEDIGAETH – Ar Orffennaf 6 yn Ysbyty Dewi Sant Bangor bu farw Mr John Closs Williams, Cae Perthi. Yr oedd yn enedigol o'r Nant ac wedi

byw yma gydol ei oes. Gedy weddwa mab a merch a chydymdeimlir â hwy a'r teulu oll yn eu hiraeth a galar.

GWIBDAITH – Cafodd llond bws o blant a thrigolion yr ardal ddiwrnod hapus iawn yn y Sw yng Nghaer. Trefnwyd y trip gan bwyllgor y carnifal.

CROESO – i Mr a Mrs Emyr Searell Jones i'w cartref newydd yn Saron Llanwnda.

MARW – Yn ddiweddar mewn ysbyty yn Lerpwl bu farw Mrs Ellen M. Hughes, gweddw cyn-brifathro Ysgol y Nant yn 99 oed. Cydymdeimlir â'i mab Bleddyn a'r teulu yn eu hiraeth.

CANLYNIADAU CARNIFAL LLANBERIS

(parhad)

(O dudalen 12)

Caernarfon; Tegan-E. Thomas, 89 Maes Padarn; Hamper-C. Thomas, Deiniolen; Llestri-M. Lloyd, Caernarfon.

GWISG FFANSI

Dan 3: 1. Paddington Bear, Jessica Jones; 2. Dick Wittington, Nicholas Pooley; 3. Noddy, Edryd Sharp. Rhwng 3 a 5: Cymeriad Adnabyddus, 1. Mother Goose, Miriam Thomas; 2. Bill & Ben, Sion a Huw; 3. Pry Bach Tew, Ian Hughes. Gwisg Hysbysebu. 1. Robertson Jam, Marc Reynolds; 2. Angel Delight, Elin Roberts; 3. Peas in a Pod, Becca Parry. Rhwng 5-7: Cymeriad Adnabyddus. 1. Basil Brush, Deian Owen; 2. Mr Urdd, James Kevin Hooson; 3. Mrs Shilling, Susan Kelly. Hysbysebu, Cyf. 1. Milky Bar Kid, Tristan Rees, Captain Birds Eye, Mark Ellis. Rhwng 7 a 9: Cym. Adnabyddus, 1. Wurzel Gumidge, Wendy Rowlands, 2. Sipsi, Delyth Williams, 3. Marchog, Trystan Thomas. Hysbysebu, 1. Dynes 'Avon', Delyth Williams. Rhwng 9 a 12: Unrhyw Wsg, 1. Tywydd Cymru, Nia Williams; 2. Chris Bonington, Gavin Harris; 3. Mini Miners, Ffion a Jane. Rhwng 12 a 16: 1. Miss Piggy, Menai Hughes; 2. Popeye, Bethan Jones, 3. Beauty & the Beast, June a Carol.

Cymeriad gorau o'r enillwyr uchod: Nia Williams.

Dros 16, 1. King Kong, Arwyn Roberts; 2. Dewi Sant, Emrys Jones; 3. Y Diafol, Pat Williams. Tablo Stryd: 1. Snow White, Stryd Fawr; 2. Arch Noa, Stryd Newton; 3. Red Arrows, Maes Padarn. Tablo ar Droed: Dim beirniadu oherwydd y glaw. Pâr digrif: Dim beirniadu oherwydd y glaw. Coets wedi ei haddurno: 1. Delyth Williams, 2. Lyn Ellis. Beic wedi ei addurno: 1. Euron Thomas, 2. Sam Williams. Gwobr Arbennig i dablo: Snow White.

Rhif lwcus y rhaglen: 762 (Heb ei hawlio).

Enillwyr y Dawnsio: Dawnwyr Morris, Llanberis. Y Majorettes, Jazz Troupe, Caernarfon.

Chwaraeon, Nos Fawrth, Gorffennaf 15.

Rhedeg, Ysgol Dolbadarn: Babanod, 1. Nicola Roberts, 2. Elin Roberts, 3. Dylan Williams. Dos. 1. Genethod, 1. Miriam Thomas, 2. Rhian Roberts, 3. Anna Roberts. Bechgyn, 1. Anthony Roger, 2. Shane Roberts, 3. Derfel Owen. Dos. 2. Genethod, 1. Linda Prydderch, 2. Faun Jones, 3. Annette Sellars. Bechgyn, 1. Edward Rogers, 2. Tristan Rees, 3. Cai Williams. Dos. 3. Genethod, 1. Lyn Jones, 2. Jennifer Jones, 3. Julie Baylis, Bechgyn, 1. Simon Williams, 2. Marc Williams, 3. Darryl Griffiths. Rhwng 7 a 9:

Genethod, 1. Nia Thomas, 2. Bethan Jones, 3. Wendy Rowlands. Bechgyn, 1. Richard Parry, 2. Eifion Griffiths, 3. Andrew Owen. Rhwng 9 a 11: Genethod, 1. Alice Jones, 2. Helen Pritchard, 3. Catrin W. Roberts. Bechgyn, Cyf. 1. Terry Saynor, Darren Price, Mark Parry, Andrew Thomas. Rhwng 11 a 14: Genethod, 1. Melanie Sellars, 2. Petula Williams, 3. Irene Evans. Bechgyn, 1. Stephen Thomas, 2. Peter Williams, 3. Nigel Roberts. 100 Llath (14-16 oed): Genethod, 1. Elaine Jones, 2. Carol Jones. Bechgyn, 1. Terrence Griffiths, 2. Owain Griffith, 3. Stephen Owen, 4. Nicki Cholk. 100 Llath (Agored): 1. Gareth Williams, 2. Gwilym Evans, 3. Gareth Jones. 100 Llath (dros 30 oed): 1. Gwyn Williams, 2. Cledwyn Jones, 3. Iwan Williams. 100 Llath (merched 16-30): 1. Jane O'Donell, 2. Marie Baylis, 3. Gwawr Owen, Vivian Thomas, Sheila Atkins. (merched 30-40): 1. Carys Williams, 2. Iola Sellars, 3. Bet Roberts. (merched dros 40): 1. Mrs A.M. Evans, 2. Mrs J. Davies, 3. Mrs Pritchard, Mrs Hughes. Ras Filltir: 1. Terrence Griffith, 2. Michael Griffith, 3. Kevin Jones, 4. Melanie Sellars. Ras Drithroed: 1. Vera a Nia; 2. Janice a Susan; 3. Glenda a Wendy. Ysg. Brynrefail: 1. Carys a Bet; Cyf. 2. Helen a Sheila a Marie a Vivian. Ras Tim o 4: Genethod, 1. Petula, Carol, Iorwen, Iona; 2. Melanie, Michelle, Glenda, Elaine. Bechgyn, 1. David, Kevin, Nigel, Andrew; 2. Terrence, Stephen, Neil, Michael. Ras Araf Beic: Ysg. Dolbadarn, 1. Sonia Lyn a Steven Parry. Ysg. Brynrefail, 1. Elaine Jones a Nigel Rowlands. Ras Gyflym Beic, 1. Petula a Steven. Melanie a David. Ras Drithroed: Ysg. Dolbadarn. Bechgyn, 1. Paul a Jason; 2. Gareth a Peter; 3. Brian a Robert Henry. 1. Darren a Huw; 2. Haydn a Gwynfor; 3. Wayne a Gareth. Ysg. Brynrefail, 1. Keith a Kevin; 2. Stephen a Neil; 3. David a Terrence.



Delyth Williams ac Annette Sellars yng ngharnifal Llanberis.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ
Rhydd-
Feddiant

Llanberis

Perchennog
Aneuryn
Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL


Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Y PENSAER

Daeth diwedd naddwr cerrig
Yn chwarel fawr Llanbêr
Ac yno mewn 'Land Rover'
Daeth pensaer gyda'i gêr.

Rhyw wydr clir oedd ganddo
Yn sefyll ar dri throed;
Pren mesur a phren union
A rhif o begiau coed.

Tra'n craffu ac yn mesur
- Mewn 'metric' medda fo
Fel yn y Ffrainc a'r Almaen -
Wna llathen ddim mo'r tro -
Fe soniodd am wneud trydan
Wrth guro'r pegiau main,
Er mwyn cael gwres canolog
Yn Leeds i'w daid a'i nain.

"Mi dorraf dwnnel," meddai
"Trwy'r graig a'i throed a'i chefn
I ddod â'r dŵr o'r Marchlyn
A'i yrru'n ôl drachefn.

Llyn Peris," meddai wrthyf,
"Mae hwn rhy fach fel hyn;
Rhaid sychu pob diferyn
A'i wneud yn fwy o lyn."

Am afon fach Llwyn Bedw
Ei rhoi mewn twnnel du
A'i throi o'i hen gynefin
Ganrifoedd maith a fu.

Bydd yma arian ddigon;
Dim 'isrif' na 'jac-do'
A Chyfri' Mawr ddaw iti
Bob wythnos yn ei dro.

Chwe blynedd bron aeth heibio
A'r Pensaer aeth i'r De
A'i ddarlun, gynt ar bapur
Sy'n disgyn nawr i'w le.

A ddaw o eto i fesur
A throi y dŵr yn ôl?
Gwell chwalu chwarel arall
Na llwgu ar y dól.

Huw Thomas,
Gwenallt,
Llanrug.

DRINGO'R 'LOTUS FLOWER TOWER' gan Alun Huws

Cefais fy hun yn Calgary yn
ystod gaeaf caled 1977-78, yn
helpu ffrind i adeiladu ei dŷ.
Doedd dim posibl gweithio'n
yr oerni yn aml iawn, gyda'r
tymheredd i lawr yn
nhridegau gradd Celsius
(oerach na phwynt rhewi).
Dim ond gwyntoedd cynnes y
'Chinook' sy'n rhuo i lawr o
fynyddoedd y Rockies yn
ystod y misoedd oeraf o'r
flwyddyn (Ionawr a
Chwefror) sy'n gwneud
bywyd ychydig yn fwy
goddefgar. O gofio, prin gan
mlynedd yn ôl, nad oedd tref
na cherbyd na gwres canolog
yma, dim ond Indiaid y Paith
a'u pebyll yn byw eu bywyd
crwydrol; Duw a wŷr sut
roeddynt yn cadw'n fyw dros
y gaeaf.

Fodd bynnag, erbyn heddiw
mae Calgary yn dref anferth o
dros chwarter miliwn o bobl yng
nghanol gwlad eang a
phrydferth; ac y mae'r
boblogaeth yn cynyddu tua 1500
bob mis! Ymhlith yr holl bobl o

bob cefndir a lliw sydd wedi
ymfudo yma, mae nifer o
ddringwyr a mynyddwyr
Prydeinig, ac efo un o'r rhain yr
oeddwn i'n aros.

Rhyw noson dyma sôn am griw o
ddringwyr o Nottingham oedd yn
bwriadu teithio i Diriogaeth y
Gogledd-Orllewin (N-W Territory) i
ddringo'r 'Lotus Flower Tower'.
Dyma ardal dringo wych mewn ardal
o glogwyni gwenithfaen anferth ond
anghysbell a ddarganfuwyd mor
ddiwedd ar â dechrau 1960. I
gyrraedd yr ardal hon o Calgary,
rhaid oedd gyrru mil o filltiroedd i
fyny'r 'Alaska Highway' i Lyn
Watson yn yr Yukon ac yna hedfan
mewn awyren i mewn i'r
mynyddoedd a glanio ar Lyn Glacier.
Oddi yno, roedd taith gerdded o dros
chwe awr i'r cwm rhyfeddol sy'n
ganolfan gwych i ddringwyr.

Dringwyd y mynydd gyntaf yn
1960, ac wedi hynny, tua chwe
gwaith yn unig. Braint fawr y byd
dringo heddiw yw cael dilyn llwybr
dringo fel hyn - llwybr dringo sydd
wedi ei alw'n un prydferthaf y byd;
llwybr dringo perffaith os oes y fath
beth yn bod.


Wedi cysylltu â'r criw o
Nottingham a gofyn am gael ymuno â
hwy, cynigiais syniad ychwanegol
iddynt, sef rafftio allan o'r ardal am
300 milltir i lawr afon Nahanni i Fort
Simpson a thrwy'r Headless Valley a
thri cheunant anferth ar yr afon.
Cefais fy nerbyn fel aelod o'r tim, a
chytunodd pedwar o'r criw i fentro i
lawr yr afon gyda mi.

Roedd dwsin yn y tim; gwyliau haf
yr hogia', felly roedd yr awyrgylch yn
hamddenol; braidd yn rhy
hamddenol o gofio fod cymaint o
waith paratoi. Yr unig amser o'r
flwyddyn i ddringo yma yw
Gorffennaf ac Awst; dau fis cwta o
haf gan fod yr ardal ar gyrion y Cylch
Arctig. Ond oherwydd byrder yr haf,
mae'r holl blanhigion yn manteisio ar
y cyfle i flodeuo nes llenwi'r holl
ardal â lliwiau amryliw. Golygfa
fendigedig!

Roedd cyfaill o Colorado wedi
cynnig benthgylch car am ddim i'r tim,
felly anfonwyd Hughie allan
bythefnos ynghynt i ddreifio'r car o
Denver i Seattle, codi'r gweddill o'r
tim yno a'u cludo ymlaen i Calgary i'r
gogledd i Lyn Watson.

Pam yn enw pob rheswm y
gofynnwyd i Hughie ofalu am y car,
'wn i ddim. Doedd ganddo ddim
trwydded yrru ddilys yn y wlad hon!
Ond rhywsut gallodd ddreifio 2000 o
filltiroedd a chroesi'r terfyn o un
wlad i'r llall heb i'r awdurdodau
ddarganfod ei ddiffyg trwydded! Fy
ngwaith i oedd prynu bwyd i bawb
yn Seattle, a dyna a fu. Erbyn canol
mis Gorffennaf, roedd pawb yn
barod yng Nghalgary (gan gynnwys
Hughie a'i Ffordyn!) i gychwyn am
wyliau anturus yn y gogledd.
Wythnos yn ddiweddarach roedd
injan y 'twin otter' yn bustachu wrth
geisio codi o'r dŵr yn Llyn Watson i
gario'r hogia' i'r mynyddoedd.
Roedd 14 ohonom erbyn hyn - dau
lwyth i'r awyrennau bach.

Wrth chwilio am Lyn Glacier o'r
awyr, gwelsom fod pabell a
hofrennydd yno'n barod. Roedd
grŵp o archwilwyr yno'n chwilio am
fetelau prin. Braidd yn gymysg oedd
ein teimladau ynglŷn â hyn - ar un
llaw, mae'n gwneud dringo'n fwy
diogel o wybod fod hofrennydd ar
gael, ond ar y llaw arall, ein bwriad



gwreiddiol oedd bod yn hollol
ddibynnol ar ein gilydd a'n sgiliau.
Ond am bris o 50 doler arbedwyd
taith gerdded o chwe awr, a rhaid
cyfaddef ein bod yn diolch yn
ddistaw am hynny.

Roedd y tywydd yn anarferol o
ffafriol, felly penderfynwyd
cychwyn dringo ar unwaith: 2000 o
droedfeddi, dau ddiwrnod o
ddringo, a diwrnod arall i ddod lawr;
dyna oedd y syniad. Rhannwyd ni
fesul parau: Steve a finna,
Shilling-Rabbit a Kieth (ffugenwau
hurt gan rai o'r Saeson 'ma!).

Un o nodweddion y llwybr dringo
hwn yw silff berffaith tua hanner
ffordd i fyny - deg pitch - gydag eira
arni. Rhaid anelu i gyrraedd y silff
hon yn ystod y diwrnod cyntaf.

Shilling a'i bartner yn dringo
gyntaf; Steve a minnau'n dilyn.
Roedd dau bitch caled ar y cychwyn,
ond wedi hynny, doedd y dringo
ddim mor anodd, ac fe ddaethom at y
silff mewn ychydig oriau. Doedd
dim eira o gwbl arni! Damio a rhegi!
Roedd yn rhaid cael eira i wneud
cinio - "Freezedry - just add water!")
Roedd yr ychydig ddŵr oedd
gennym yn werthfawr iawn i ni erbyn
hyn.

Roedd dringo'r ail ddiwrnod yn
wych: dringo go iawn, gan ddilyn
crac tenau am fil o droedfeddi, a
hwnnw'n agor allan o faint llafn
cyllell i faint dwrn. Gan fod angen
rhannu gêr bellach, dyma ymuno â'n
gilydd a dringo fel tim o bedwar;
Shilling yn arwain, a minnau'n olaf.
Wedi diwrnod bendigedig o ddringo,
dyna gyrraedd y copa, a chael digon o
eira yno i wneud bwyd a diod. Buom
yn eistedd yno'n hollol ddistaw yn
ein byd bach ein hunain yn gwylio'r
machlud dros reng ar ôl rheng o
fynyddoedd.

Parhaodd y tywydd yn dda
drannoeth hefyd, ond dyma
benderfynu aros yn ein sachau cysgu
nes oedd yr haul yn uchel.
Didrafferth iawn oedd dringo i lawr
wyneb y clogwyn, er mai dyma'r
rhan fwyaf peryglus, ond erbyn
diwedd prynhawn y trydydd
diwrnod, roedd y pedwar ohonom yn
ôl yn ein pebyll yn wên o glust i glust
ar ôl llwyddo i goncro wyneb y
'Lotus Flower Tower'.

Ond roedd taith rafft ar afon
Nahanni yn wynebu pedwar
ohonom. Mwy am y daith honno y
tro nesaf.

Ar y Dde:

Llwybr wyneb de-ddwyreiniol y 'Lotus
Flower Tower' 2000 o droedfeddi
ddwywaith maint mast Nebo!!

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

GARDADIO


Mae'n debyg bod llawer ohonoch
wedi tyfu tomatos ac efallai yn cael
trafferth i'w cochchi. Dyma ddwy ffordd
hawdd i gyflymu'r broses.

1. Lapio pob ffrwyth gwyrdd mewn
papur
2. Rhoi'r tomatos mewn bocs gydag
afal aeddfed ynddo.

Er mwyn cochchi mae'n rhaid i'r
tomatos gael ychydig o hormonau.
Un o'r rhai pwysicaf yw'r nwy
'ethelene'. Cynhyrchir hwn gan
grwyn ffrwythau. Drwy lapio'r
tomatos mewn papur mae'r nwy'n
cael ei ddal wrth y croen. Mae afal
aeddfed yn cynhyrchu swm mawr o
ethylene.

Defnyddir yr un broses yn y
diwydiant bananas. Fe'i cesglir a'u
hallforio tra'n dal yn wyrdd. Wedi
cyrraedd pen eu taith, neu weithiau
yn ystod y siwrnai, fe'u gorchuddir ag
ethylene i'w melynau.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

DIRGELWCH Y TWLL YN Y WAL

gan Eurwyn Lloyd Evans

Fe'm hatgoffwyd gan y darlun o'r hen Dŷ Du, Llanberis a ymddangosodd yn rhifyn mis Mai o'r Eco, am hen lythyr a ddarganfuwyd gan fy nhaid mewn hafn yn y wal yn agos i'r hen simdde fawr yn Nhŷ Du dros hanner can mlynedd yn ôl. Mae'r llythyr yn dal gan fy mam er ei fod yn fregus iawn ac wedi melynau gan henaint.

Mae'n darllen fel a ganlyn:
Gyfaill - 'Rwy'n danfon hyn o linellau atoch dan obeithio eich bod chwi a'r teulu yn iach, fel ac 'rwyf finnau a'm teulu, i Dduw yn unig y byddo'r clod. Mi glywais oddiwrthych, ond nid oeddwn ddim gartref, yr oeddwn yn Sir Fôn, yr amser hwnnw. Ond os ydi'r defaid gennych dymunaf arnoch ysgrifennu ataf ac mi ddof finnau yna (os byw ag iach a fyddaf) i'w nhol hwy cyn gynted ag y bydd bosibl. Hyn yn fyr oddiwrth eich ufudd was.

JOHN THOMAS

Llanberis

Medi 179- (wedi torri)

ac ar ei gefn mae'r cyfeiriad yma:

Owen Pritchard,

(twll yn y papur) Parish of

(twll eto) Fachreth,

Merioneth Shire.

Lanfachreth, ger Dolgellau yr oedd wedi ei gyfeirio ond ymddengys fel pe buasai'r llythyr wedi ei ysgrifennu ond heb gychwyn ar ei daith, er ei fod wedi ei blygu yn ôl llythyrâu'r cyfnod â sêl arno.

Nid oes unrhyw awgrym pwy oedd John Thomas na sicrwydd mai ef oedd yn cartrefu yn Nhŷ Du yn y cyfnod hwnnw. Mae'n debyg mai ychydig iawn a fedrai ysgrifennu llythyr mor gywrair yn yr 1790au ac efallai fod hyn yn taflu rhyw ychydig o oleuni ar pwy oedd John Thomas. Yr oedd yna un o'r enw yma yn Llanberis yn y blynyddoedd 1768-1831 ac yn bregethwr gyda'r Methodistiaid. Yr oedd yn frawd i Ddafydd Thomas (Dafydd Ddu Eryri) ac y mae rheswm i gredu fod yr ysgrifen ar y llythyr yn debyg iawn i waith Dafydd Ddu Eryri. Gwehydd oedd John Thomas, fel ei dad a'i frawd, ac fe gartrefai ym Merddyn Coch, ar dir Llwyn Celyn. Nid oes dim cysylltiad amlwg rhwng John Thomas a Thŷ Du, nac ychwaith beth a wnelai John Thomas â defaid. Hwyrach mai ysgrifennu dros rhywun arall - tenant y Tŷ Du, neu ryw ffermwr o'r fro, a wnaeth John Thomas.

Mae'n amlwg mai i

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

**Bwydydd, Melysion,
Teganau a Dioddydd
Y FELINHELI 670237**

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU**

**T
CEPAS**

**Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)**

Lle GWYCH Ar Gyfer Noson Allan!

**GWESTY'R
FOELAS
(PREIFAT)
LLANRUG**

**(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652**

**PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD**

BRYNREFAIL

CERDDORION – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau ysgrifenedig mewn cerddoriaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod Llundain: Gradd 1: Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig (gyda theilyngdod); Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian (gydag anrhydedd) a Nerys Ann Williams, Llwyncoed (gydag anrhydedd). Gradd 2: Alison Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo; Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig (gydag anrhydedd) ac Enid Price, Llys Gwynt, Llanddeiniolen (gydag anrhydedd). Maent yn ddisgyblion i Miss L. Prys Roberts, Godre'r Coed.

LLONGYFARCHION – hefyd i Kathy Williams, Marino a fu'n llwyddiannus mewn arholiad gradd 3 dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol. Fe'i hyfforddwyd gan Miss Clarys Williams, Summer Hill, Llanberis.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jennie A. Roberts ddiolch i'r Parch a Mrs Harri Parri a'r bechgyn am bob cymorth a gafodd ar y daith i Oberammergau. Hefyd i Mr Bleddyn Williams a Mr Iorwerth Jones am drefnu a gohebu ac i aelodau Seilo a'i ffrindiau am eu cwmni diddan. Fe wneuthum fwynhau fy hun yn iawn ac efallai y bydd cyfle arall i gael eich cwmni yn y dyfodol agos.

Jennie A. Roberts

GŴYL HAF – Yn y cae chwarae ar Awst 16 daeth nifer o oedolion a phlant ynghyd i fwynhau cystadlaethau gwisg ffansi, mabolgampau a gemau giamocs. Trefnwyd y dydd gan Glwb Pedwarugain, gyda Chlwb Refail yn paratoi lluniaueth ysgafn. Beirniadwyd y gystadleuaeth wisg ffansi gan Mr a Mrs Selwyn Griffith, Penisarwaun.

Mabolgampau – Ras Babanod dan 4 oed – 1. Darren, 2. Aaron, 3. Tony. Ras Sach dan 7 – 1. Paula, 2. Llŷr, 3. Eira Wyn. Ras sach dan 11 (genethod) – 1. Susan, 2. Alwen, 3. Lyn. Ras sach dan 11 (bechgyn) – 1. Richard, 2. Neil, 3. Sally. Ras wy a llwy dan 7 – 1. Llŷr, 2. Amelia, 3. Paula. Ras wy a llwy dan 11 – 1. Jackie, 2. Susan, 3. Sally. Ras dair coes – dan 7 – 1. Llŷr a Kelvin. Ras dair coes dan 11 oed – 1. Alwen a Meinir, cydradd 2. Delyth a Heather, a Kathy a Sonia. Ras dair coes oedolion – 1. Mr a Mrs Stead (ymwelwyr), 2. Mair Williams a Jinnie Roberts, 3. Jinnie Williams a Jennie Hughes. Gwisg Ffansi – dan 4: cydradd 1. Aaron Jones ac Aled Roberts. cydradd 2. Gari Roberts a Paul Jones, cydradd 3. Darren Williams a Tony Roberts. dan 7 – cydradd 1. John Evans ac Amelia Jones. cydradd 2. Kelvin Houston a Llŷr Jones a Rhys Roberts. 3. Paul Roberts. dan 11 – 1. Richard a Sally Ellis, 2. Susan Parry, 3. Alwen Jones. dan 16 – 1. Heather a Janet Jones, 2. Kathy Williams, Sonia Jones, Einir Evans, Jackie Walters, 3. Llinos Roberts, Delyth Roberts. dros 16 – 1. Glenys Jones a Carol Houston, 2. Sheila Williams ac Ann Parry, 3. Mair Williams a Jinnie Roberts. Addurno beic – 1. Alwen Jones, 2. Tudur Roberts a Rodney Roberts, 3. Paul Roberts. Addurno coets – 1. Rhys Roberts. **Gemau Giamocs** – Dewiswyd pedwar tîm ar y dydd gydag Alwyn Roberts, Carl Hasson, Carol Houston a Shirley Roberts yn gapteiniaid. Tîm Stanley Roberts a fu'n fuddugol ar ddiwedd yr ornest ac fe gyflwynwyd y darian i Shirley Roberts gan Mr Meredydd Foulkes, Bryn Derw. Terfynwyd y prynhawn gyda ras o'r cae chwarae, heibio Tremailian, Cae Coch, Minffordd gan ddychwelyd i'r cae. Cyflwynwyd tlysau i'r mab a'r ferch fuddugol, sef Carl Hasson a Jackie Wager.

Fe wnaed casgliad ariannol ar y cae ac fe ddiolchwn i bawb am eu

cefnogaeth a'u cymorth. Diolchwn yn arbennig i Mr a Mrs Selwyn Griffith am eu gwasanaeth a'u rhodd hael. Daeth nifer o'r oedolion ynghyd ar ddiwedd y dydd am swper a disco yn y Villa Pantana, Garndolbenmaen.

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod mis Gorffennaf yn Nhŷ Glas, trefnwyd gornest gan Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Margaret Wardle a Jill Harris, rhoddwyd anrheg y mis gan Liz Thomas ac fe'i henillwyd gan Carol Houston. Dalier sylw fod y wibdaith flynyddol i Gaer yn cychwyn am 9 o'r gloch o'r bont (8.45 o Gwm-y-glo).

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod mis Gorffennaf yn Nhŷ Glas cafwyd adroddiad gan Mrs Gwyneth Jones a fu'n cynrychioli'r ardal yng nghynhadledd flynyddol y Sefydliad yn Neuadd Albert, Llundain. Gwnaed y te gan Rhian Jones a Carol Houston. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Hughes ac fe'i henillwyd gan Rhian Jones. Dalier sylw fod gwibdaith flynyddol wedi ei threfnu ar Fedi 6 i Fae Colwyn gan derfynu'r noson yn y Theatr.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyd misoedd Mehefin a Gorffennaf: Meh 6 – 1. Gwyn Mowl, 2. Gary Jones, 3. Mike Collins. Meh 13 – 1. Helen Jones, 2. Sylvia Williams, 3. Bertie Roberts. Meh. 20 – 1. Maldwyn Jones, 2. Meurig Jones, 3. Mrs Owen. Meh 27 – 1. Jennie Hughes, 2. Colin Wager, 3. Margaret Jones.

Gorff. 4 – 1. Alwyn Roberts, 2. Glyn Owen, 3. Dafydd Ellis. Gorff 11 – 1. Jackie Jones, 2. Pat Jones, 3. Dwywen Owen. Gorff 18 – 1. Derek Davies, 2. Jennie Williams, 3. Emyr Jones. Gorff 25 – 1. Shirley Roberts, 2. Wil Hughes, 3. Aled Green.

CLWB YR EFAIL – Ailagorwyd Tŷ Glas, cartre'r Clwb, ar ôl y gwaith o'i ailaddurno gan y gwasanaethau cymdeithasol, ar ddydd Iau Gorffennaf 17. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i'r aelodau ar nos Fawrth Awst 12. Yr ysgrifennydd, E. Welsby oedd yn y gadair. Trafodwyd gweithgareddau arfaethedig. Penderfynwyd cynnal gwibdaith hwyrol yn gynnar ym Medi.

Casglwyd tanysgrifiadau ac ychwanegwyd £19 at goffrau'r clwb oddi wrth aelodau a phentrefwyr eraill. Cafwyd pleidlais o ddiolch. Daeth y noson â £36 i goffrau'r clwb. Rhoddwyd y te gan Mrs J. Hughes a Mrs J. Williams. Mrs Gwynedd Jones a enillodd y raffl. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs Davies, Bwthyn Bryn Parc a Mrs Walton, Pencraig. 'Roedd stondin 'Moes a Phryn' gan y clwb yn ystod mabolgampau'r pentref. Cafwyd elw o £22.70 tuag at anrhegion Nadolig i'r henoed.

**MODURDY
MENAI**



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

DINORWIG

PRIODAS – Yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar Orffennaf 26 priodwyd Mr Iolo Gwyn Griffiths, Tan y Bwlch, Dinorwig a Miss Valerie Ann Danbiel Parry, 85 Maes Padarn, Llanberis. Byddant yn cartrefu yn 3 Tai Caradog, Deiniolen. Dymuniadau gorau iddynt.

Burnley, Gorffennaf 26 priodwyd Mr John E. Corless a Miss Karen M. Jones, Foel Gron, Dinorwig. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU – Dymuna Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig a'r cysylltiadau teuluol ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad caredigrwydd, cardiau a llythyrau a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth o golli eu brawd Mr Abram Huws Morris (Rhen Abs), Tan y Bwlch, Dinorwig yn ddiweddar.

Dymuna John a Karen Corless, Burnley, (Foel Gron gynt), ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am y llw o anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant, ac am y cardiau i ddymuno'n dda iddynt ar achlysur eu priodas.

Dymuna Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig ddiolch i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur ei

phen-blwydd yn ddeunaw oed.

GWAELEDD – Bu Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir a Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd o dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Pob dymuniad da am adferiad iechyd buan. Hefyd i amryw sy'n cwyno yn yr ardal y dyddiau hyn.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr John Eryl Roberts, 3 Maes Eilian ar ei llwyddiant yn arholiadau terfynol Coleg Caerfyrddin. Bwriada fynd yn ôl i'r coleg i astudio ar gyfer arholiad B.Ed.

I Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir a Mr Trebor Thomas, Bwlch Gwynt ar lwyddo yn yr Arholiadau Lefel Gyffredin. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol gydag astudiaethau pellach.

GENI – Awst 16 yn Ysbyty Môn ac Arfon ganwyd mab bychan, Iwan, i Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, Dinorwig. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

MARW – Awst 19 yn ei chartref Garnedd Wen, y Fachwen, yn 90 mlwydd oed bu farw Mrs Maggie Foulkes. Cydymdeimlir â'i hunig ferch, Miss Mair Foulkes yn ei phrofedigaeth.

PIANO NEWYDD AM GOFIO ENGLYNION



Plant Safon 4 o amgylch piano newydd ysgol gynradd Bethel. Trefnwyd ymgyrch drwy'r ysgol iau o ddysgu englynion gan Lowri Prys Roberts, athrawes gerdd yr ysgol er mwyn casglu'r arian i brynu'r piano.

Llun: I. Jones

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: PADARN 278

F'ryd gorau'r fro.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

TRIPAU

Ddiwedd y tymor diwethaf cafwyd 3 thrip i'r flwyddyn gyntaf, ail a thrydydd. Bu'r flwyddyn gyntaf yn ymweld â Rhaeadr Aber, yr ail flwyddyn yn Llandwyn a'r drydedd ym Mhenmon. Trefnwyd yr ymweliadau gan Mrs N. Manning, pennaeth yr Adran saesneg.

LLWYDDIANT ARLUNIO

Yn Eisteddfod Sir yr Urdd cafodd y rhai canlynol wobwr gyntaf: Mark Williams, Jessica Williams, Alison Williams, Rheinallt Parry, Ruth Evans, John Tudur Parry a Glyn Jones.

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Colwyn daeth Jessica Williams ac Alison Williams yn ail, gyda John Tudur Parry a Rheinallt Parry yn cael trydydd.

Yn ystod mis Mehefin hefyd aeth Mr Evie Roberts i Lundain gyda dau aelod o'r 6ed dosbarth - Gareth Roberts a Glyn Jones. Buont yn ymweld â'r Academi Frenhinol 'Post Impressionism', yr Amgueddfa Brydeinig, Oriel Tate a'r Oriel Genedlaethol.

'PUNKS' YN YR YSGOL

Ddiwedd Mehefin cafwyd diwrnod o wisgo yn yr ysgol er mwyn hel arian at Gronfa Rhian Wyn. Talodd pawb 15c am ddod i'r ysgol, heb wisgo gwisg ysgol briodol.

GWEITHGAREDDAU

ANARFEROL

Trefnwyd amryw o weithgareddau braidd yn anarferol ar gyfer diwedd y tymor: canwio ar Lyn Padarn, diwrnod ym Mhlas y Brenin ac ymweliad â Chanolfan Genedlaethol y Dechnoleg Arall ym Machynlleth.

DYMUNIADAU DA

Hwyl i bawb sydd wedi gadael yr

ysgol eleni, i weithio neu i ddechrau gyrfa. Cofiwch, peidiwch ag anghofio amdanom ni yn yr hen ysgol.

CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION GWYNEDD

Susan Bailey o Fethel (ail - picell genethod dan 15); Michael Roberts o Gwm-y-glo (cyntaf - pwysau dan 13); Michael Coombes o Benisarwaun (ail - naid driphlyg dan 13); Iestyn Jones o Frynrefail (cyntaf - naid hir dan 15); Matthew Antoine (ail - disgen dan 15); Gwynfor Williams o Benisarwaun (cyntaf - taflu pwysau a thaflu disgen i fechgyn hyn).

Aeth Gwynfor ac Iestyn ymlaen i gynrychioli Ysgolion Gwynedd yng Nghyfarfod Athletau Ysgolion Cymru yng Nghwmbarn ym Mehefin. 'Roedd y ddau ohonynt ymhlith y chwech cyntaf yn eu gwahanol gystadlaethau. Llongyfarchiadau iddynt.

CRICED

Fe enillodd y tîm dan 13 oed yn erbyn Ysgol Segontium. Dyma'r sgôr: Ysgol Brynrefail 102 am 6 wiced (Iwan Pritchard 25, Malcolm Allan 21, Peter Sharp 15 dim allan); Ysgol Segontium 28 (Ian Hughes 3 wiced am 1 rhediad, Gwyn Morris 2 am 3, Elfed Williams 2 am 1, Steven Owen 2 am 9).

TLWS CRICED

YSGOLION GWYNEDD

Fe enillodd y tîm dan 14 oed ei gêm yn erbyn Ysgol Tryfan, Bangor - Tryfan yn sgorio 60 o rediadau a'r ysgol yn cyrraedd 61 am 5 wiced. Aethant ymlaen i'r rownd gyn-derfynol a cholli mewn gêm glos yn erbyn Ysgol Pwllheli.

dechrau Medi 18 (dim cyfarfod Hydref 16 a 23). Tâl: £2; Pensiynwyr: £1.

Y WAUNFAWR - Y Cynganeddion - Y Prifardd Emrys Edwards. Nosweithiau Llun, 7.00 - yr Ysgol Gynradd. 8 cyfarfod yn dechrau Medi 22. (unwaith bob pythefnos ar ôl wythnos gwyliau'r ysgol). Tâl: £3; Pensiynwyr: £2.

FACHWEN

LLONGYFARCHIADAU - i Robert Arwyn, mab 20ain oed Enid a Griff Jones, Bryn Gelli, Tal-y-sarn ar ei lwyddiant yn ennill gradd B.Mus. gydag anrhydedd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Yn ychwanegol mae wedi derbyn ysgoloriaeth i wneud cwrs o lyfrgellyddiaeth yng Ngholeg Aberystwyth a bydd yn dechrau ar ei faes newydd yn yr hydref.

Mae Arwyn yn ŵyr i'r diweddar Mr a Mrs R.G. Roberts, Cae Canol, Fachwen ac Isallt, Brynrefail ac yn nai i John Roberts, Brynawelon. Pob llwyddiant iddo eto i'r dyfodol.

DATHLU YM MHLAS PENGWAITH



Metron y cartref yn torri'r deisen yn barod ar gyfer dathlu pen-blwydd y fam-frenhines.



A dyma rai o drigolion Plas Pengwaith yn disgwyl yn eiddgar am y deisen a'r sieri.

GALW PAWB SY'N GADAEI YSGOL NEU GOLEG

Cyhoeddwyd y canlyniadau lefel 'A' a'r Ddiploma Genedlaethol Gyffredin yn ddiweddar. I rai, mae hyn yn golygu cadarnhad bod ganddynt le mewn Coleg neu Brifysgol. I eraill mae'n golygu chwilio am wybodaeth a chyngor ynglŷn â cheisio am gyrsiau eraill. Mae'r Gwasanaeth Hysbysrwydd Addysg Bellach yn gweithredu, trwy wledydd Prydain, yn ystod misoedd Awst a Medi er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddarach ynglŷn â manau gwag ar gyrsiau gradd a diploma ledled gwledydd Prydain i ddarpar fyfyrwyr.

Mae'r gwasanaeth yng Ngwynedd yn seiliedig ar y Swyddfeydd Gyrfaedd Rhanbarthol yng Nghaergybi, Bangor, Conwy, Pwllheli, Caernarfon a Dolgellau lle mae Swyddogion Ymgynghorol Lleol ar gael i roi cymorth. Trwy gydol yr haf, maent yn derbyn rhestr sy'n dangos y manau gwag cyfredol ar gyrsiau gradd a diploma mewn rhyw 130 o golegau politechnig a cholegau eraill. Byddant yn gallu canfod cwrs gyda'r oedi lleiaf posibl, cynghori ynglŷn â dyddiadau cychwyn, anghenion mynediad ac yn y blaen, a rhoi'r rhai sydd ag ymholiadau mewn cysylltiad

â'r Swyddog Addysg sy'n ymdrin â grantiau a dyfarniadau. Ond nid cynorthwyo myfyrwyr i ganfod lle ar gyrsiau Addysg Bellach yw unig ddiben y Gwasanaeth: gall Swyddogion Ymgynghorol Lleol gynghori pobl, er enghraifft, i ail-ymgeisio am le mewn prifysgol, neu ail-eistedd lefel 'A'. Gallant hefyd roi cymorth i bobl ganfod gwaith addas gyda chyfle hyfforddi'n rhan-amser ar gyfer gyrfa arbennig.

Dylai'r rhai sy'n gadael ysgol neu goleg ac sy'n dymuno defnyddio'r Gwasanaeth hwn alw neu ffonio am gyfweiliad yn y swyddfa yrfaedd agosaf.

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio

BWLCH UCHAF

DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

DOSBARTHIADAU'R CYMDEITHAS
ADDYSG Y GWEITHWYR YM MRO'R
ECO

CWM-Y-GLO - Llenydd - Mrs Mary Hughes, BA. Nosweithiau lau am 7.00 - yr Ysgol Gynradd. 10 darlith yn dechrau Medi 25. Tâl: £3.50, Pensiynwyr: £2.

DEINIOLEN - Byd Natur - Mr Gareth Evans. Nosweithiau Mawrth am 7.00 - Ysgol Gwaun Gynfi (ac eithrio'r trydydd nos Fawrth yn y mis). 5 darlith yn dechrau Medi 23. Tâl: £2; Pensiynwyr: £1.

LLANBERIS - Byd Natur - Mrs Mary Vaughan Jones, B.Sc. Nosweithiau lau am 7.00 - yr Ysgol Gynradd. 5 darlith yn dechrau Tachwedd 6. Tâl: £2; Pensiynwyr: £1.

LLANRUG - Rhagymadrodd i Archaeoleg Prydain - Dr. John Ll.W. Williams. Nosweithiau Llun am 7.00 - yr Ysgol Gynradd. 20 cyfarfod yn dechrau Medi 22. Tâl: £5; Pensiynwyr: £3.

PEN-Y-PASS - Adeiladau Cefngwlad (Darlith Saesneg) - Mr Vernon Hughes, R.I.B.A. Nosweithiau lau - 7.45 - yn Hostel leuenctid. 6 darlith yn

HEN ENGLYNION

Cymerais daith drwy'r fro i
chwilota am hen englynion
gan fod mis Yr Eisteddfod
Genedlaethol wedi bod.
Gobeithio y daw cyfle i roi
ychwaneg yn y dyfodol.

BYDDIN BOOTH
(Salvation Army)

Hwy ynghyd i gyd a gaf - yn filwyr
O foliant gwresocaf:
I Booth annwyl, gobeithiaf,
Daw llu'n iach gyda llaw Naf.
(1887 Owen Dinorwig)

Y CEILIOG

Mab iâr yn clebar i'n clyw, -
"gw-gw-gw,"
Yn geg i gyd ydyw:
Cawr cribog, heglog, hygryw,
A'r un ei gân er yn gwy.
(Ap Glaslyn)

PREGETHWYR DISTAW

Distaw yw'n dweud ei destun, - a
distaw
Mi dystiaf yw wedyn:
I'r trwm ei glyw nid yw'r dyn
Yn bloeddio dim mewn blwyddyn.
(Richard Owen,
Tyddyn Mawr, Llanrug.)

SWYN

Rhyw fyd geir o yfed gwin - di-fesur,
Hud wefusau cyfrin:
O wynfyd! bod yn fin-fin
Â'r angel oedd ar y nglin.
(T. Jones Parry, Dinorwig)

MWG TARO

Mwg cyflym, Ow! ac aflan - ei sawr
yw
Anghysur i'n trigfan:
Drwy y tŷ y daw o'r tân -
Ni fyn dwll i fynd allan.
(Glynhefin, Y Waunfawr)

PYSGOTA
(wrth edrych ar Fangorfab yn bachu
mochyn o'r tu ôl)

Bangor y llenor, o'r llyn - a gododd
Basgedig bysgodyn
Â'i fach hir, a chofiwch hyn,
'E fachodd y brawd fochyn.
(Alafon)

I'R CYCHWR
YM MHORTHAETHWY
(wrth ddychwelyd o Gaerlleon)

Dois eisoes o wlad Saeson - a
deuthum
Hyd eithaf gwlad Arfon,
Traws-rwyfwr tros yr afon
Gyr fi i ryw gwr o Fôn.
(Robin Ddu yr ail o Fôn
oddeutu 1770)

UNIGEDD GWEDDW MORWR

Crwydro'n gudd, wna'n brudd ei
bron - ac araf
Hyd y cerrig clyson,
Lawer dydd hyd wely'r don
I chwilio am ei chalon.
(Berw, Y Waunfawr)

Y FRONFRAITH

Clywch gennad cloch y gwanwyn -
foreddydd
Yn gwefreiddio'r dyffryn:
Ei bregeth ar y brigyn
Yw, "Mola Dduw yn aml ddyn."
(Owen Peris)

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

FY RHINI

Ar aelwyd wen fy rhieni, - yn hir,
Ces fy nhad i'm llonni:
Canwaith y daeth mewn cyni,
O wên fy mam, nef i mi.
(Ioan Arfon)

CWM DWYTHWCH

Hen gwm unig i'm henaidd, - dihalog
Dawelwch bendigaidd!
Yn ei osber cawn ysbaid - mewn
myfyr,
A bore difyr hyd lwybrau defaid.
(R.E. Jones (Cyngar) Llanberis)

YR HEN FLWYDDYN

O'i llaw wen er fy llonni - diddannod
Ddoniau ddygodd imi:
Hen Flwyddyn, hafal iddi
Yn f'oes oll ni chefais i.
(Parch R.H. Watkins)

JOHN CLOSS
(Bachgen a golodd ei ffordd ac a fu
farw yn yr eira ar ben Moel Eilio yn
1805)

Oerfel fu uchel achos - i angau
Llym ingol i mddangos:
Mantell niwl mewn tywyll nos,
A dychryniad dechreunos.
(Dafydd Ddu Eryri)

CYNFFONNWR

Y gŵr na haeddaï garreg - hun is
hon:
Hen sarff fu trwy'i adeg:
Ni achwyna ychwaneg -
Clai a geir yn cloi ei geg.
(Dewi Orwig)

DIOLCH AM JELLY
(Bu Llew Llwyfo yn wael. Cafodd
botelaid o jelly traed lloï gan Mr M.T.
Morris Caernarfon. Fel hyn y
diolchodd:)

Ennyd o welliant, nid holliach, - M.T.
A'm tynn, drwy gyfrinach,
O 'ngofid a'm hing afiach,
Yn llew byw a thraed llo bach!
(Llew Llwyfo, Llanrug)

Y RYBELWR
(Gwnaed ar amser eira i Jeremiah
Jones y rybelwr)

Bydd dawel wrth rybela - frawd
annwyl,
Yfory daw'n hindda:
Mae'n anodd iawn, er dawn da
Gwneud arian dan gnwd eira.
(Dewi Peris)

ENGLYN TALCEN SLIP

Un noson ym Mai nesa, - yr oeddwn
Mewn breuddwyd ysmala: -
Gweled prif ros yn Gwalia -
Beti Ffowc yn byta ffa.
(Eidiol Môn)

Y TAIR M
(Enillodd Megan, Maggie a Mary o
Llanrug dri gini am gyd-adrodd
Pennod o'r Beibl sef 1 Corinthiaid,
Pennod 13 ym Mhafiliwn Caernarfon
oddeutu trigain mlynedd yn ôl. Mr
Owain Tudur Thomas, Rhianfa oedd
eu hathro.)

Tair geneth, a'r tri gini - tair wrol,
Tair orau'n Eryri:
Tair 'M' o chwaeth aeth â hi,
A'u hadrodd yn wrhydri.
(Glan Rhyddallt)

FY NHAD

Er y siom, fe roes imi - yn waddol
Ei hedd a'i gwrteisi:


Nerth fy nydd, wrth fy noddi
Addfwynedd oedd fy nhad i.

FY MAM

Rhoi ei Gwanwyn i'r geni - yna'i Haf

A'i gyfoeth i'm codi:
Er ei myned ym Medi
Nid llwch yw ei harddwch hi.
(Y Prifardd R. Bryn Williams)

SIOE GWNINGOD



Mae trydedd Sioe
Gwningod Llanrug a'r Cylch
i'w chynnal yn hen ysgol
Glanmoelyn ddydd Sadwrn
Medi 13 am 1.30 p.m.

Arwydd o dwf y sioe yw
bod yma eleni 10 cwpan i'w
ennill o'i gymharu â 3 yn y
sioe gyntaf. Bydd te a bwyd ar
gael.

Os ydych eisiau manylion,
cysylltwch â: **Gwilym a Mair
Williams, Ddôl Bach,
Cwm-y-glo (Ffôn Llanberis
851)**

Dymunant ddiolch i'r nifer
helaeth o gefnogwyr sydd
wedi helpu i drefnu'r hyn a
ddylai fod yn sioe
lwyddiannus arall.

CLYW A CHOFIA AM Y SIOE!
Dyna ddywed y 'Black Rex'
uchod.

BETWS GARMON

YMRYSON CŴN DEFAID -
Cynhaliwyd yr Ymryson Awst 8 a 9
gyda 90 o gŵn yn cystadlu. Enillwyr o
gylch Eco'r Wyddfa oedd: Dosbarth
Cwellyn - 7. Emyr Evans, Betws
Garmon. Dosbarth Gwynedd - 5.
Huw Roberts, Bethel; 6. W. Hughes,
Deiniolen. Cwpan a gwobrwyon
cyflwynedig gan Gwmni Rheilffordd
Llyn Llanberis - 1. John Jones; 2.
Elwyn Griffith; 3. Pat Macdonald,
(Waunfawr); 4. Emyr Evans; 5.
Gwilym Owen, (Betws Garmon); 6.
John Jones, Waunfawr.

Enillydd Cwpan arbennig i rai dan
21 oed - H.M. Roberts, Bethel.
Enillydd Cwpan Goffa John Lewis
Trosol (cyflwynedig gan Mrs B.
Morgan, Llwyn Bedw, Bethel) - Emyr
Evans, Betws Garmon. Y beirniad
oedd W.E. Thomas, Nebo.

Enillwyr y raffl: £10 - G.M.
Thomas, Groeslon; £6 - Mrs Clayton,
Waunfawr; £4 - Mrs Gwen Potter,
Tesco, Caernarfon; £2 - J. Jones,
Mountain Street, Caernarfon; £1 -
Cyril Jones, Llanberis; gwin coch -
J.E. Parry, Hermon, Llanrug.

LLONGYFARCHIADAU - calonnog i
lolo, Bryn Tegid ar ei lwyddiant yn
arholiad y lefel 'O'.

DYMUNIADAU - Ar ôl anhwylder, da
yw gweld fod Mrs M.C. Jones, Bryn
Afon o gwmpas unwaith eto.
Dymunir gwellhad llwyr iddi.

RAS SGWÂR

Bydd cyfres newydd o raglenni
ysgafn yn dechrau ar deledu
Harlech yn yr hydref. Un ohonynt
yw'r gystadleuaeth holi 'Ras
Sgwâr' ac maent yn chwilio am
gystadleuwyr a
chynulleidfaoedd. Daw'r holl
gyfres o stiwdio newydd y cwmni
yn yr Wyddgrug.

Os ydych am ymuno yn yr hwyl
drwy gystadlu neu drefnu
cynulleidfa, cysylltwch â'r
cynhyrchydd Eifion Lloyd Jones,
HTV Cymru, Canolfan Deledu,
Caerdydd.

GWENITH GWYN

Theatr Gwynedd, Bangor -
23-27 Medi. Ffurf newydd ar
stori ramantus y Ferch o Gefn
Ydfa yw 'Gwenith Gwyn',
cynhyrchiad haf Theatr Cymru.

Yn y ddrama-gerdd newydd
hon gan Rhisiart Arwel ceir
cyfuniad o ganeuon a
dawnsfeydd gwerin traddodiadol
a chaneuon ysgafn newydd i roi
gwedd newydd ar yr hen stori o
ramant a chynllwyn.



**BECWS
DEINIOLEN**


(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr **CALOR GAS**
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

CROESAIR RHIF 38



AR DRAWS:

1. Rhan o'r flwyddyn i dorri yd!!! (3.4.)
8. Peth sy'n pigo (5)
9. Yr Arglwydd (3)
10. Melltith y chwarel (3)
11. Cymylog neu heb loywyder (3)
13. Bath!! (3)
16. Cwm yr Eisteddfod Eleni (6.3)
17. Ai hwn yw gobaith Cymru (3)
18. "Dau yn unig oedd yn y . . . (T.R.H.) (3)
23. Ffrwyth y Dderwen (3)
24. Gweirglodd (3)
25. Offerynnau rhyfel (5)
26. Arweinydd neu bennaeth (7)

I LAWR:

2. Culfor (4)
3. Ynys yr Ugain Mil (4)
4. "Yn . . . i ti Gymru" (3)
5. Dull o Siarad (4)
6. Sŵn Trwm (4)
7. Taith y plant ar ôl y gwyliau (2.2.2.5)
9. Glöyn Byw (3.3.2.3.)
12. Perthynas (5)
13. Ymgasglu (5)
14. Urddas neu wychder (5)
15. Gwywo (5)
19. Genau (4)

20. Gwerthfawr (4)
21. Chwant (4)
22. Ffwrn i wneud calch (4)
23. "Y Tad a'r . . ." (3)

Cyfrifier y llythrennau canlynol fel UN lythyren: CH. DD. FF. NG. LL. PH. RH. TH

Anfoner y cynigion fel arfer i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis. £1 o wobr i'r enillydd.

ATEBION CROESAIR RHIF 38

AR DRAWS:

1. Pagan. 5. Ysgub. 8. Emrys. 9. Coron. 10. Wedyn. 11. Fiola. 12. To. 13. Daionus. 17. Chwe. 18. Iach. 20. Naid Hir. 24. Rhu. 26. Rownd. 27. Yr Haf. 28. Isder. 29. Arian. 30. Godech. 31. Segur.

- I LAWR: 1. Picfforch. 2. Gardd Eden. 3. Nenfwd. 4. Priodi. 5. Yswain. 6. Gyda. 7. Bondo. 14. Aed. 15. Oni. 16. Sigledig. 19. Chwefror. 21. Iâr Fach. 22. Hawlio. 23. Rwdins. 24. Rhwysg. 25. Ehed.

Enillydd Croesair Rhif 37: Derlwyn Jones, Dwyfor, Nant Peris.

DYDDIADUR

MEDI

1. Llun. WAUNFAWR. Yr Ysgol Feithrin - paned a sgwrs yn Festri Croes y Waun am 10 o'r gloch.

4. Iau. WAUNFAWR. Sefydliad y Merched - siaradwr gwadd - y Dr R.S. Williams. DEINIOLEN. Cymdeithas Chwirydd Disgwylfa.

5. Gwener. DEINIOLEN. Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00. Yr elw at Gronfa Meddygol Deiniolen a'r Cylch.

6. Sadwrn. LLANRUG. Sioe Eifr gydag amrywiol stondinau ym Maes Hyfryd, Ffordd yr Orsaf. BRYNREFAIL. Gwibdaith flynyddol Sefydliad y Merched i Fae Colwyn. DEINIOLEN. Taith Gerdded dan nawdd y Seindorf.

9. Mawrth. LLANRUG. Merched y Wawr - siaradwr gwadd fydd Mr Dafydd Whiteside Thomas.

10. Mercher. BETHEL. Dawnsyw Morris yn ymarfer yn y Neuadd am 6.30.

12. Gwener. BETHEL. Pwyllgor yr Urdd yn y Neuadd.

13. Sadwrn. LLANRUG. Sioe Gwningod yn hen Ysgol Glanmoelyn am 1.30.

18. Iau. PEN Y PAS. Dosbarth Nos WEA. 'Adeiladau Cefn Gwlad' gyda Mr Vernon Hughes. Yn yr Hostel am 7.45.

22. Llun. WAUNFAWR. Cofrestru y Dosbarth Dysgwyr Cymraeg yn yr Ysgol am 7.00. Dosbarth Nos WEA. 'Y Cynganeddion' gyda'r Prifardd Emrys Edwards yn yr Ysgol am 7.00. LLANRUG. Dosbarth Nos WEA. 'Rhagymadrodd i Archaeoleg Prydain' gyda Dr John Ll. W. Williams yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

23. Mawrth. WAUNFAWR. Cofrestru y Dosbarth Dysgwyr Cymraeg yn yr Ysgol am 7.00. DEINIOLEN. Dosbarth Nos WEA. 'Byd Natur' gyda Mr Gareth Evans yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

25. Iau. WAUNFAWR. Merched y Wawr - siaradwr gwadd fydd y Dr Derec Llwyd Morgan. CWM Y Glo. Dosbarth Nos WEA. 'Llenyddia' gyda Mrs Mary Hughes, BA, yn yr ysgol am 7.00. PEN Y PAS. Dosbarth Nos WEA am 7.45 yn yr Hostel.

26. Gwener. BETHEL. Sioe Ffasiynau gan Antur Aelhaearn yn y Neuadd. Y noson dan nawdd Merched y Wawr. LLANBERIS. Cynhelir Noson Goffi ac amryw stondinau ym Mhlas Pengwaith. Yr elw at sicrhau Nadolig hapus ac esmwyth i'r trigolion.

29. Llun. LLANRUG. Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR. Dosbarth Nos WEA 'Y Cynganeddion' yn yr Ysgol am 7.00.

30. Mawrth. DEINIOLEN. Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00.

EVANS VEHICLE BODY REPAIRS & PANEL BEATERS CLWT-Y-BONT


Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio

TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

PERYGL A HAGRWCH



Dyma lun hen lori wedi'i gadael ers rhai misoedd yng nghyffiniau Crawiau ger Llanrug.

SIOE EIFR

Dydd Sadwrn, Medi 6 cynhelir Sioe eifr ym Maes Hyfryd, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Bydd stondinau amrywiol yn ogystal â chystadlaethau gwisg ffansi i blant dan 14 oed.

Yn bresennol bydd Seindorf Llanrug a Majorettes y pentref.

Os ydych yn barod i helpu mewn unrhyw fodd cysylltwch â Mrs E. Crook. (Ffôn C'fon 3682); neu Mrs F. Harris (Bethesda 601071) neu Mrs M. Colborn (C'fon 4750).

YSGOL FEITHRIN LLANRUG

Yn eisiau:

Cynorthwywraig i'r Ysgol Feithrin. Pedwar bore yr wythnos o 9.30 hyd 11.30.

Anfoner ceisiadau i:

Mrs Rhian Jones,
3 Minffordd,
Llanrug.

CHWARAEON

RHAGOLYGON Y TYMOR PÊL-DROED

Daeth y tymor pêl-droed ar ein gwarthaf unwaith eto, gan ddechrau'n swyddogol i dimau'r ardal ar Awst 16. Ond mae'r paratodau wedi mynd ymlaen am wythnosau cyn y dyddiad hwn; trefnu rheolwyr, arwyddo chwaraewyr, chwarae gemau cyfeillgar, paratoi meysydd chwarae ac yn y blaen. Prin fod yr hen dymor wedi cael amser i farw nad yw'r newydd wedi dechrau, ac y mae rhedeg clwb pêl-droed bellach wedi mynd yn waith gydol y flwyddyn i'r pwyllgorau bychan eu rhif ond mawr eu hymroddiad.

LLANBERIS oedd tîm yr ardal a thîm y Gynghrair y llynedd, gan ennill Pencampwriaeth Cynghrair Caernarfon a'r Cylch a Chwpan Cyfryngol Gogledd Cymru. Maent eisoes wedi cychwyn y tymor hwn gyda buddugoliaeth bwysig yn erbyn tîm tref Caergybi, gan ennill Tarian Marconi. Mae'r gêm yn cael ei chwarae ar ddechrau pob tymor rhwng pencampwyr Cynghrair Môn a phencampwyr Cynghrair Caernarfon a'r Cylch. Llanberis enillodd eleni o ddwy gôl i un; Gwilym Williams a Ray Harding yn sgorio iddynt. Ychydig o newid fu yng ngharfan Llanberis, ac er iddynt golli dau gefnwr profiadol yn Phil Holland a Mike Roberts, mae'r gweddill o'r tîm wedi arwyddo'n ôl, gan gynnwys dau chwaraewr newydd, sef Peter Kasperek ac Arwel Griffiths. Gwilym

Williams fydd eu rheolwr y tymor hwn eto.

Tymor siomedig a gafodd LLANRUG y llynedd, gan ddiweddu'r tymor yn waglaw ar ôl y toreth tlysau yn y ddau dymor blaenorol. Ond mae cryn dipyn o newidiadau wedi digwydd yn eu carfan yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae eu gobeithion yn uchel am dymor llwyddiannus y tro hwn. Penodwyd Dafydd Arfon Jones yn rheolwr ac y mae wedi arwyddo cnewyllyn profiadol yn sylfaen i'r tîm. Hogia'r llynedd yw llawer ohonynt, gyda Ron Evans, Wyn Hughes a Dafydd Owen yn newydd-ddyfodiaid, a Nigel Hardwidge yn dychwelyd i'w le priodol rhwng y pyst ar ôl ysbaïd o flwyddyn yng Nghaernarfon. Bechgyn ieuanc lleol yw'r gweddill o'r garfan; rhai ohonynt yn dangos cryn addewid.

Am y tro cyntaf yn hanes yr *Eco*, mae trydydd tîm o'r ardal yn chwarae yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch. Croeso i Glwb Pêl-droed BETHEL! Gan nad ydynt hyd yn hyn wedi sicrhau cae iddynt eu hunain ym Methel byddant yn chwarae eu gemau am y tymor hwn ar gae Ysgol Brynrefail, Llanrug. Gobeithio y bydd eu cefnogwyr yn barod i deithio yno er mwyn rhoi cychwyn calonogol iddynt yn eu mentr newydd. Byddant yn chwarae mewn crysau clared a glas, trowsus gwyn a sanau glas.

PYSGOTA

Clywed fod pysgotwyr o'r Iseldiroedd wedi dod yr holl ffordd i afon Seiont a bachu dau eog o ddeg pwys a chwe phwys yr un. Ble mae'r pysgotwyr lleol?

SNWCER

Mae tymor snwcer Cynghrair Bangor a'r Cylch yn ail-ddechrau ar Fedi 1af, a bydd saith o dimau ardal yr 'Eco' yn cystadlu. Yn Adran A, mae timau Duon Deiniolen, Cochion Deiniolen a Duon Llanrug; ac yn Adran B, mae Gleision Deiniolen, Duon Bethel, Gleision Bethel a Gleision Llanrug. Ni fydd timau Deiniolen yn chwarae gartref y tymor hwn oherwydd gwelliannau i'r Clwb.

CRICED

Cafodd tîm criced 'Eco'r Wyddfa' un gêm yn gynnar yr haf hwn yn erbyn tîm o adrannau'r Brifysgol ym Mangor. Gyda mwy o ymarfer, gall y

Os gwyddoch am unrhyw newydd o ddiddordeb ym myd chwaraeon - unigolion sy'n gwneud marc ac ati - rhwch wybod inni.



Tîm Dartiau y Glyntwrog, Llanrug ar noson cyflwyno'r tlysau. Yn eu meddiant mae cwpanau y trydydd yn y gynghrair ac ail yn y gynghrair ddyblau. Daethant yn ail yng Nghwpan Pearson a cholli yn y rownd gyn-derfynol o'r dyblau.

'Roedd Ian Lewis, Glyn Sinclair a Hywel Roberts yn absennol pan dynnwyd y llun.

PÊL-DROED

BETHEL

Cafwyd cychwyn gweddol galonogol yn eu gêm gyntaf yng Nghynghrair Caernarfon, er mai colli o dair gôl i ddwy fu eu hanes yn Nefyn. John Pritchard a Brian O'Shaughnessy yn sgorio i Fethel. Bu ond y dim iddynt a chael gêm gyfartal ar ôl brwydro'n ôl o fod dair gôl wrth gefn. Gwahanol iawn oedd eu hanes yn erbyn Hiracl ganol yr wythnos, gan golli'n drwm o chwech gôl i un. Brian O'Shaughnessy yn sgorio'u hunig gôl. Yr un stori oedd hi'r Sadwrn diwethaf hefyd, gan golli'n erbyn Mountain Rangers o dair gôl, a Bethel y tro hwn yn methu canfod y rhwyd o gwbl. Ond rhaid peidio a digaloni: mae'n sicr o gymryd amser i'r tîm ifanc, lleol hwn gael eu traed danynt, ac y maent dan yr anfantais ychwanegol o orfod chwarae'r gemau'n y mis cyntaf i gyd oddi cartref. Mae pethau gwell i ddyfod cyn diwedd y tymor.

LLANBERIS

Llongyfarchiadau'r 'Eco' iddynt am ennill Tarian Marconi.

Wedi cychwyn mor fuddugoliaethus yn erbyn tîm Caergybi, galleid fod wedi disgwyl gwell canlyniadau'n y gemau Cynghrair. Siomedig (yn ôl safon Llanberis) oedd y gemau cynnar, er bod y Pwyllgor wedi darogan pryderon ynglŷn â'r tîm yn ystod yr wythnosau cyntaf hyn oherwydd bod nifer o chwaraewyr profiadol heb fod ar gael oherwydd gwyliau. Cyfartal oedd gêm gyntaf y tymor gartref i Bwllheli; y ddau dîm yn sgorio tair gôl yr un. Peter Kasperek yn sgorio dwy a Ray Harding un i Lanberis, ond dylai Ray Harding fod wedi setlo'r gêm o blaid Llanberis ar ôl iddynt ennill cic gosb. Methu wnaeth Ray o'r smotyn gwyn, a dyna bwynt wedi'i golli.

Colli oedd hanes Llanberis yn erbyn yr hen elyn yn Llanrug, ond ni allai'r un o'r ddau dîm fod wedi cwyno pe bai'r pwyntiau wedi eu rhannu. Prif wendid Llanberis yn y gêm hon oedd peidio â manteisio ar eu cyfle, a bu'n rhaid iddynt ddisgwyl tan y pum munud olaf i sgorio'u hunig gôl, a honno'n ymdrech unigol benigamp gan Ray Harding. Pob clod

i'r dyfarnwr Mike Love am reoli'r gêm mor effeithiol.

Bu'n rhaid disgwyl tan y Sadwrn diwethaf cyn i Lanberis ennill gêm, a hynny o drwyth blewyn yn erbyn Nefyn; 4 gôl i 3. Sgorwyr Llanberis oedd Peter Jones, Iwan Evans, Peter Kasperek a Gary Williams.

LLANRUG

Daeth tymor newydd a gwedd newydd ar dîm Llanrug, a chafwyd cychwyn calonogol iawn iddynt, gan ennill dwy gêm a dod yn gyfartal yn y llall. Yn y Felinheli, sgoriodd Hefin Pritchard ddwy gôl i ennill pwynt iddynt, ac yna, daeth dau bwynt gwerthfawr iawn yn erbyn Llanberis. Len Padmore yn penio'r bêl i gefn y rhwyd yn gynnar yn y gêm, a Gwilym Williams yn arbed yn arbennig o dda oddi wrth Hefin Pritchard yn fuan wedyn. Daeth Llanberis yn agos i sgorio'n yr hanner cyntaf hefyd, ond 'roedd amddiffynfa Llanrug yn dal yn gadarn, er i'r postyn eu harbed unwaith. Yn yr ail hanner, 'roedd Llanberis yn pwyso am gôl, ond torodd blaenwyr Llanrug yn rhydd, a chododd Dic Owen y bêl yn dactyl dros ben gôlgeidwad Llanberis i roi Llanrug ddwy gôl ar y blaen. Parhaodd Llanberis i bwyso, ond nid oeddynt yn ddigon lwcus i sgorio nes i Ray Harding dorri drwedd ar ei ben ei hun yn y munudau olaf i sgorio gôl dda iawn.

Y Sadwrn diwethaf, cafodd Llanrug fuddugoliaeth eithaf rhwydd yn erbyn tîm Hiracl, gan guro o bedair gôl i ddim; Hefin Pritchard (2), Wyn Hughes (1) a Dic Owen (1).

Fel y dywedodd un o gefnogwyr gor-selog Llanrug wrth chwaraewyr Llanberis ar ôl iddynt golli: "Pob lwc i chi'n y cwpanau bois; ni biai'r Gynghrair!" Ond y mae'n llawer rhy gynnar yn y tymor i ddechrau hel meddyliau o'r fath, ac y mae ugain a mwy o gemau'n aros i'w chwarae. Er hynny, cefnogwyr hyderus fel yr uchod sydd eu hangen ar bob tîm, a gobeithio y bydd tri thîm yr ardal yn bodloni eu cefnogwyr ar y maes chwarae yn y misoedd sydd i ddod.

Felly ar ddiwedd pythefnos gyntaf y tymor, dyma sut y mae timau'r ardal yn sefyll:-

	Ch.	Ennill	Cyf.	Colli	O Blaid	Yn Erbyn	Pwynt- iau
Llanrug	3	2	1	0	8	3	5
Llanberis	3	1	1	1	8	8	3
Bethel	3	0	0	3	3	12	0